

# CÂR DY GYMYDOG

SUL CYFIAWNDER HILIOI 08.02.26




Oni nodir yn wahanol, cymerir dyfyniadau'r Ysgrythur  
o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (BCND) hawlfraint  
© Cymdeithas y Beibl 2004



Cyhoeddwyd gan: Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon  
Interchurch House  
35 Lower Marsh  
Llundain SE1 7RL  
+44 (0) 20 3794 2288 (ffôn)  
info@ctbi.org.uk  
www.ctbi.org.uk

Elusen gofrestredig: rhif 1113299 (Cymru a Lloegr)  
Rhif cofrestru Cwmni Cyfyngedig trwy Warant: 5661787  
© CTBI 2025

Cynlluniwyd gan 25 educational **www.base25.com**  
Pob darluniad gan Mark Howard gan ddefnyddio AI ac Adobe Photoshop



# CÂR DY GYMYDOG

SUL CYFIAWNDER HILIOI 08.02.26

A stylized, abstract illustration in shades of green and yellow. It features a man's face in the upper right, looking down with a beard. Below him, his hands are shown holding a yellow, teardrop-shaped object. The background is filled with green leaves and stems. The text is centered in the middle of the image.

OHERWYDDY MAE'R  
HOLL GYFRAITH WEDI  
EI MYNEGI'N GYFLAWN  
MEWN UN GAIR, SEFYN  
Y GORCHYMYN, "CÂR DY  
GYMYDOG FEL TI DY HUN."

Galatiaid 5:14

## CYNNWYS

|                                                                  |    |
|------------------------------------------------------------------|----|
| <b>Cyflwyniad:</b> .....                                         | iv |
| <b>Grŵp Ysgrifenwyr Dydd Sul Cyfiawnder Hiliol:</b> .....        | vi |
| <b>Rhan un:</b> Deunydd Addoli .....                             | 1  |
| <b>Rhan dau:</b> Darlleniadau Beiblaidd, Emynu a Gweddïau.....   | 19 |
| <b>Rhan tri:</b> Pregethau .....                                 | 25 |
| <b>Rhan pedwar:</b> Homiliau a Myfyrdodau .....                  | 37 |
| <b>Rhan pump:</b> Gweithredwch – Gweithgareddau ac Adnoddau..... | 45 |

## Cyflwyniad

Os ydych chi o oedran penodol, efallai eich bod chi'n cofio, neu'n dymuno anghofio, comedi sefyllfa Brydeinig o'r 1970au yn dwyn yr enw 'Love Thy Neighbour'. Roedd yn portreadu cwpl dosbarth gweithiol Gwyn, y Booths, a oedd yn byw drws nesaf i gwpl Du o dras Garibiaidd, y Reynolds, yn Twickenham, gorllewin Llundain. Er mai 'Love Thy Neighbour' oedd enw'r 'gomedï', ychydig iawn o gariad a gafwyd rhwng y ddau ddyn, Eddie Booth a Bill Reynolds. Roedd yr agwedd 'gomedï' honedig yn cynnwys un esgus gwael ar ôl y llall dros gyfnwid enwau dodi hiliol, a rhannu stereoteipiau rhagfarnllyd, gyda'r dyn Du yn cael y gwaethaf yn ddieithriad.

Mae natur sarhaus y rhaglen hon mor fawr fel nad yw'n cael ei hailddarlledu ar deledu daearol; ac nid oes gan hyd yn oed y sianeli lloeren mwy tywyll, sy'n ymfalchio mewn darlledu comedïau eraill o'r cyfnod hwnnw gyda'r rhybuddion angenrheidiol am 'iaith ac agweddau y gallai rhai eu cael yn annerbyniol neu'n sarhaus heddiw', y dewrder i'w ddangos.

Rwy'n credu y dylid rhoi (a chadw) rhai pethau yn 'y bin sbwriel hanes' wedi'i farcio â 'peidiwch ag agor'. Eto i gyd, rydym ni nawr yn profi agweddau, ymddygiadau ac iaith sydd wedi'u hatgyfodi o'r cyfnod hwnnw. Prin fod diwrnod yn mynd heibio heb i ryw wleidydd, sylwebydd cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchydd fod yn defnyddio iaith hiliol ymfflamychol i ennyn gelyniaeth tuag at geiswyr lloches, ffoaduriaid, mewnfudwyr a phobl Ddu a Brown.

Ar ben hynny, yn debyg i'r 1970au, mae rhai sydd bellach yn honni bod yn rhaid i chi fod yn Wyn er mwyn bod yn 'wirioneddol' Brydeinig ac yn Wyddelig. Ystyrir y rhai nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn yn 'fewnfudwyr' neu'n 'ymfudwyr', p'un a ydynt wedi'u geni ar y glannau hyn, neu wedi byw yma ers degawdau. Yn gysylltiedig â'r syniadau hynny mae'r cysylltiad annymunol a di-sail rhwng 'mewnfudwyr' a throseddu, sy'n awgrymu bod mewnfudwyr yn fwy tueddol o gyflawni troseddau, yn enwedig troseddau o natur dreisgar. Agwedd allweddol ar y protestiadau asgell dde eithafol, gwrth-noddfa yw cadw 'menywod a phlant yn ddiogel' rhag ceiswyr lloches gwrywaidd ysglyfaethus.

Yn eironig ddigon, yn ystod y 1970au cafwyd hefyd y gwrth-naratif bod mewnfudo yn ffenomen a oedd yn cyfoethogi cymdeithas. Rhoddodd i'r wlad fwy o asedau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol, ac amrywiaeth a bri. Heddiw, y naratif parhaus, camarweiniol yw bod mewnfudo (o'r De Global) yn arwain at raniad cymdeithasol, ac yn arwain at densiynau ethnig. Eto i gyd, mae'r Beibl yn dweud wrthym fod ffordd well, un rhagorach fyth, sy'n seiliedig ar gariad a thrugaredd. (1 Corinthiaid 13).

Pan ofynnwyd i Iesu gan athro'r gyfraith, "P'run yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" atebodd Iesu "Y cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain." (Marc 12: 28-31)

O ganlyniad, mae Iesu yn galw ar ei ddilynwyr, nid i 'oddef' neu hyd yn oed 'derbyn' eu cymdogion, ond i'w caru, waeth sut maen nhw'n edrych neu beth maen nhw'n ei gredu. Nid gofyn hawdd yw hwn ond un sy'n cael ei fynnu o bawb sy'n dilyn Gwaredwr a roddodd ei fywyd dros bawb o gariad. Yn fwy na hynny, er ein bod yn aml yn clywed am bwy sy'n perthyn i wlad neu deyrnas, neu pwy ddylai gael ei eithrio ohoni, fel Cristnogion, yr unig 'deyrnas' y dylem fod yn canolbwyntio arni mewn gwirionedd yw Teyrnas Dduw (Mathew 6:33). Mae hon yn deyrnas sydd wedi'i hadeiladu ar gariad, cyfiawnder, tosturi, trugaredd, gwirionedd, undod a gobaith.



**"...er ein bod yn aml yn clywed am bwy sy'n perthyn i wlad neu deyrnas, neu pwy ddylai gael ei eithrio ohoni, fel Cristnogion, yr unig 'deyrnas' y dylem fod yn canolbwyntio arni mewn gwirionedd yw Teyrnas Dduw" (Mathew 6:33)**

Yn yr adnoddau hyn, rydym yn archwilio beth mae caru ein cymydog yn ei olygu mewn gwirionedd, yn enwedig o ystyried y hanesion cyfredol o elyniaeth, ofn, amheuaeth a chasineb at y 'llall', yn enwedig ceiswyr lloches, ffoaduriaid, ac unrhyw un nad yw'n 'ddigon' Prydeinig neu Wyddelig. Trafodwn sut mae'r Beibl yn darparu glasbrint ar gyfer byd lle mae pawb yn perthyn; lle mae pawb yn cael eu caru, eu gwerthfawrogi a'u cadarnhau am bwy ydynt, ac nid sut maen nhw'n edrych neu beth sydd ganddynt i'w gynnig. Ac un ble ceir ein hunaniaeth yn y pen draw yng Nghrist, fel brodyr a chwiorydd o un 'hil', yr hil ddynol.

Rwy'n credu bod y neges hon 'ar gyfer y fath amser â hwn'. Mae'n un sy'n siarad trwy'r baneri, y protestiadau a'r sarhad, gan gyfleu neges o undod a gobaith. Yn union fel mae'r gorchymyn mwyaf yn sôn am garu Duw a charu'n gilydd, mae marwolaeth aberthol Iesu ar y groes yn cynnig i ni oll y gobaith o fod yn unedig â Duw, ac â'n gilydd.

Gadewch inni ddefnyddio Sul Cyfiawnder Hiliol (a Suliau eraill) i sefyll gyda'n gilydd mewn cariad; gan wrthod y geiriau, y gweithredoedd a'r ymddygiadau hynny sy'n mynd yn groes i ddysgeidiaeth Crist, a chofleiddio'r egwyddorion beiblaidd hynny sy'n meithrin undod, cydlynad ac ymgysylltiad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb a weithiodd yn ddiflino i gynhyrchu'r adnoddau hyn, yn enwedig Grŵp Ysgrifenyddwr Sul Cyfiawnder Hiliol, am eu hysbrydoliaeth, eu gweledigaeth a'u syniadau. Mae ein grŵp yn adlewyrchu natur amrywiol y ffydd Gristnogol yn Iwerddon a Phrydain, ac mae'n llawer gwell oherwydd hynny!

### **Richard Reddie**

Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant, CTBI

## Grŵp Ysgriflenwyr Dydd Sul Cyfiawnder Hiliol

### GWEINIDOG SHERMARA FLETCHER-HOYTE

Y Gweinidog Shermara Fletcher-Hoyte yw Prif Swyddog Cysylltiadau Pentecostaidd, Carismatig ac Amlddiwylliannol yn Eglwysi Ynghyd yn Lloegr. Mae ganddi hefyd gyfrifoldeb am gyfiawnder hiliol ac ymgysylltiad eciwmenaidd gydag oedolion ifanc. Yn weinidog ymroddedig a siaradwr rhyngwladol, mae Shermara wedi ymrwymo i feithrin bywydau cyfannol a llewyrchus. Amlygwyd ei harweinyddiaeth yn arbennig pan ddarllenodd gerbron cynulleidfa fyd-eang o 4.1 biliwn yn angladd y Frenhines Elizabeth II ar 19 Medi 2022. Mae arbenigedd ac angerdd Shermara wedi arwain ati gael y cyfle i siarad ar lwyfannau fel BBC Radio 2, BBC Radio 4, BBC World News, Talk TV, The God Channel, TBN, UBC Radio a Premier Radio. Mae hi hefyd yn awdur, gan gyfrannu at weithiau fel *Young, Woke, and Christian*,<sup>i</sup> *Coming Home: Christian Perspectives on Housing*<sup>ii</sup>, *Black, Christian and Single*<sup>iii</sup>, ac *Anglicans and Pentecostals in Dialogue*<sup>iv</sup>.



### Y PARCHG DENZIL JOHN

Mae Denzil John yn weinidog wedi ymddeol gyda'r Bedyddwyr, ac sy'n byw yng Nghaerffili. Bu'n weinidog ar Eglwys y Bedyddwyr Cymraeg, Tabernacl yr Ais, Caerdydd. Mae wedi gwasanaethu ar lawer o baneli a phwyllgorau enwadol a rhyng-enwadol dros y degawdau. Mae wedi gwasanaethu ar Bwyllgorau Cymorth Cristnogol yng Nghymru a'r DU, ac ar hyn o bryd mae'n aelod o fwrdd ymddiriedolwyr Coleg Bedyddwyr Caerdydd. Mae Denzil hefyd yn fardd ac yn emynydd, ac yn mwynhau cerddoriaeth, actio a garddio. Mae'n hanu o Sir Benfro ac yn hanesydd Cymreig brwd.



i Victoria Turner (ed), *Young, Woke and Christian: Words from a Missing Generation* (SCM Press, 2022).

ii Graham Tomlin and Malcolm Brown (eds), *Coming Home: Christian Perspectives on Housing* (Church House Publishing, 2020).

iii Marcia Dixon (ed), *Black Christian and Single: A Collection of Essays about Singleness in Britain's Black Pentecostal Church* (MTD Publishing, 2022).

iv David Hilborn and Simo Frestadius (eds), *Anglicans and Pentecostals in Dialogue* (Wipf and Stock, 2023).

## JUSTIN LAU

Ganed Justin Lau yn Singapôr, fe'i magwyd yn Japan ac ar hyn o bryd mae wedi'i leoli yn y DU lle astudiodd ar gyfer MA mewn Llenyddiaeth Saesneg ac MA mewn Diwinyddiaeth a Gweinidogaeth. Mae wedi gwasanaethu fel arweinydd addoli yn y tair gwlad, ac wedi grymuso lleiafrifoedd ethnig yn yr eglwys orllewinol tra'n ceisio bod yn bont rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin. Roedd ei draethawd hir MA yn ymwneud â'r hyn y gall yr eglwys orllewinol ei ddysgu o ddiwinyddiaethau Dwyrain Asia, ac mae'n ysgrifennu cylchlythyr Substack o'r enw 'Decolonising My Faith' am ei daith i integreiddio ei ffydd â'i ddiwylliant a'i dreftadaeth Dwyrain Asia. Mae bellach yn byw yn Llundain lle mae'n Weinidog Addoli a Blwyddyn Disgyblaeth yn eglwys Woodford Wells All Saints.



## PHILL MELLSTROM


Mae Phill Mellstrom yn Weithiwr Datblygu Addoli gydag Eglwys yr Alban. Mae'n gerddor medrus, yn gyfansoddwr caneuon dawnus ac yn awdur cyhoeddedig. Ef yw cydolygydd y gyfrol God Welcomes All, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef atodiad i lyfr emynau poblogaidd Eglwys yr Alban, y Pedwerydd Argraffiad o Hymnary Church. Mae'r casgliad newydd hwn yn cynnwys dros 200 o emynau a chaneuon mewn amrywiaeth eang o arddulliau gan awduron o'r Alban a ledled y byd.



Mae Phill hefyd yn aelod o'r Cyd-grŵp Litwrgaidd sy'n ymwneud â gofynion addoli ym Mhrydain a datblygiad meddwl a thestunau litwrgaidd cyffredin yn yr Eglwys fyd-eang.

## Y PARCHG MANDY RALPH

Nyrs oedd y Parchg Mandy Ralph, a dreuliodd bum mlynedd wedyn fel Gweinidog Ordeiniedig Lleol cyn dod yn Weinidog Gair a Sacrament llawn amser yn Eglwys yr Alban pan gafodd ei sefydlu yn weinidog cysylltiedig yn Annbank a Tarbolton yn Ne Ayrshire yn 2019. Mae'n aelod o Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Eglwys yr Alban.



### RICHARD REDDIE

Richard Reddie yw Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Mae'n awdur, ymchwilydd, sylwebydd a darlledwr diwylliannol a chrefyddol ac mae'n awdur a golygydd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Race for Justice: The struggle for equal and inclusion in British and Irish churches*, casgliad o 14 o ysgrifau ar gyfiawnder hiliol yn y gwahanol eglwysi (Llew/SPCK), *Abolition! The struggle to abolish slavery in the British colonies* (Lion Hudson) a *Black Muslims in Britain* (Lion Hudson).



### Y PARCHG LORRAINE SHORTEN

Mae Lorraine Shorten yn weinidog gyda'r Eglwys Forafaidd (Moravian) ym Mhrydain, ac yn gwasanaethu dwy gynulleidfa yn ardal Bath, Gwlad yr Haf. Hyfforddodd ar gyfer y weinidogaeth Ordeiniedig fel myfyrwraig aeddfed ond mae wedi gwasanaethu'r eglwys mewn sawl rôl ar hyd ei hoes. Ei galwad cyntaf i'r weinidogaeth oedd gwasanaethu dwy gynulleidfa, un yng nghanol dinas Birmingham a'r llall yng nghefn gwlad yn Llanllieni, a rhoddodd y lleoliadau amrywiol hyn ddealltwriaeth dda iddi o bleseiriau a heriau niferus y weinidogaeth. Mae hi'n swyddog Eciwmenaidd i'r eglwys Forafaidd ac yn aelod o Weithgor Cyfiawnder Hiliol Eglwysi Ynghyd yn Lloegr.




Mae hi'n mwynhau bod yn greadigol nid yn unig yn ei hamser hamdden ond hefyd yn ei gweinidogaeth trwy annog pobl i brofi Duw trwy'r greadigaeth a gweithgareddau creadigol. Mae hi hefyd wrth ei bodd gyda'r dull Godly Play o ddysgu ac yn arwain sesiynau rheolaidd gyda phlant ac oedolion.

## Y TAD PHIL SUMNER

Ar hyn o bryd mae'r Tad Phil Sumner yn Offeiriad Plwyf ym Mhlwyf Ein Harglwyddes a Sant Padrig, Oldham Mae'n Ymddiriedolwr y Gymdeithas Gatholig dros Gyfiawnder Hiliol a Fforwm Rhyng-ffydd Oldham. Ym mis Medi 2006, cafodd ei enwi mewn papur newydd cenedlaethol Prydeinig ymhlith yr hanner cant uchaf o "ymgyrchwyr, meddylwyr a rhoddwyr sy'n trawsnewid ein byd" ("Good list" The Independent Newspaper, 1af Medi 2006).

Mae wedi darlithio i UNESCO (Catalonia) ar "Brosesau cyfryngu rhyngddiwylliannol" yn Barcelona, ac ym Mrasil yng Nghynhadledd y Byd ar Ddatblygiad Dinasoedd. Bu, ddwywaith, yn dyst ar "The Moral Maze" BBC 4, unwaith ar Amlddiwylliannedd ac unwaith ar ddad-drefedigaethu cwricwlwm y prifysgolion.



## Y PARCHG DDR MAITHRIE WHITE-DUNDAS

Mae'r Parchg Ddr Maithrie White-Dundas yn weinidog ordeiniedig yn Eglwys Iwerddon. Mae'n aelod o'r pwyllgor Amrywiaeth Ethnig, Cynhwysiant a Chyfiawnder Hiliol a sefydlwyd ac a gadeirir gan y Parchedicaif John McDowell, Archesgob Iwerddon Gyfan. Mae hi hefyd yn gwasanaethu ar Fwrdd Cristnogaeth Gyfoes, Gogledd Iwerddon. Gwnaeth ei doethuriaeth mewn Astudiaethau Diwylliannol, yn Nottingham, pan sefydlodd a chadeiriodd Gynhadledd Ôl-raddedig Gristnogol Genedlaethol y DU am 15 mlynedd. Hi oedd Pennaeth yr Adran Saesneg ym Mhrifysgol Jayawardanepura, Sri Lanka. Mae hi'n briod â Paul Dundas, ac mae ganddyn nhw un ci. Mae hi'n mwynhau garddio, cerddoriaeth, dawnsio a chomedi. Mae hi'n cerdded, yn darllen yn helaeth ac yn ysgrifennu barddoniaeth, ffuglen, ac erthyglau (gan gynnwys ar gyfer y Church of Ireland Gazette)



---

‘CÂR DY GYMYDOG  
FEL TI DY HUN.’

Marc 12:31

---

# RHAN UN: LITWRGI



Yng nghanol ein deinameg ddiwylliannol gyfredol ledled Prydain ac Iwerddon, mae yna lawer o bobl ofnus ac agored i niwed. Gall fod yn weithred syml i ‘dynnu llinellau rhannu’ a ffurfio ‘ochrau’; ond yn yr holl ddeialog, yn yr holl brotestio a’r gwrth-brotestio, yn y dadlau chwyrn ac yn y bylchau rhyngddynt mae ceisio Duw – a deall sut y byddai Duw eisiau i ni fod gyda’n gilydd, ein cymdogion a’r rhai y gallem eu hystyried yn elynion – yn hanfodol.

Boed i’r gweddïau hyn ein helpu i wneud hyn oll a chymaint mwy, wrth i ni ddod at ein gilydd o amgylch Sul Cyfiawnder Hiliol 2026.

## GWEDDI AGORIADOL

Dduw’r holl greadigaeth,  
dwyn ni ynghyd – yn ddieithryn a ffrind,  
tyrd â ni i’th bresenoldeb cariadus,  
fel y gallwn wybod nad yw dy gariad tuag atom byth yn gorffen,  
ac nad oes iddo delerau nac amodau.

Dduw cariad,  
ar y Sul Cyfiawnder Hiliol hwn yn 2026,  
cyfeiria ni at dy freuddwyd dros bawb,  
fel y gallwn weithio gyda’n gilydd mewn gobaith,  
dros gyfiawnder, heddwch ac undod ledled dy fyd.

**Rho inni ras,  
dangos inni drugaredd,  
fel y gallwn fyw a charu yn dy enw,  
yn awr a hyd byth.  
Amen**

*[Gellir dilyn hyn gan yr emyn ‘Duw sydd gariad, caned daear’ fel emyn ymgynnull a mawl, gan ail-gadarnhau cariad Duw at bawb nad yw byth yn gorffen.]*

## GWEDDIAU YMGYNNULL

### BRAWDDEGAU AGORIADOL/YMATEBION

Mae'r holl greadigaeth yn eiddo i Dduw,  
**y byd a holl blant Duw.**

Llawenha'r nefoedd a'r ddaear,  
**boed i'n gwahanol leisiau,**  
**ymuno mewn un gân o fawl i Ti.**

Cyfiawnder a heddwch sy'n cofleidio,  
**clyma ni ynghyd mewn undod,**  
**er mwyn Dy Deyrnas.**

Agor ein calonnau, O Dduw Cariad,  
**fel y gall ein gweithredoedd cariadus siarad yn uwch na geiriau.**  
**Ac yn awr, addolwn di gyda'n gilydd, mewn ysbryd a gwirionedd.**

### GALWAD I ADDOLI

Mae'r holl greadigaeth yn datgan gogoniant Duw;  
Mae'r awyr yn arddangos gwaith dwylo'r Creawdwr,  
Dydd ar ôl dydd mae'r cefnforoedd yn tywallt cytgan o glod i rinwedd mawr Duw;  
Nos ar ôl nos maent yn datgelu gwybodaeth ddofn o gariad Duw.  
Ni ddefnyddiant eiriau – ond mae eu datganiad yn canu allan i'r holl ddaear mor huawdl,  
mae eu harmonïau o fawl yn atseinio i ben draw'r byd,

Duw ein Creawdwr,  
anadla fywyd i'n meddyliau,  
gras i'n siarad a'n canu,  
a thrugaredd i'n clywed a'n gwybod.  
Ymuna â'n mawl â'th rythm tragwyddol a'th alaw oesol,  
boed i bob tafod gyffesu,  
boed i bob glin blygu  
a boed i'n holl galonnau fod yn un yn dy gariad mawr  
at dy holl blant annwyl.

**Bydded ymadroddion ein geneuau,**  
**Myfyrdodau ein calonnau,**  
**A gwaith ein dwylo,**  
**Yn gymeradwy i ti ac yn offerynnol**  
**Wrth greu yn heddychol dy deyrnas –**  
**Ble mae pawb yn cael eu caru, eu trysori a'u hachub.**

**Amen**

### GWEDDIAU DROS ERAILL, EIN HUNAIN A'R BYD

Pan fyddwn yn chwilio am obaith  
yng nghanol anhawster,  
wrth i ni gael ein herio i'r pwynt lle cawn ein temtio i encilio,  
neu'n cael ein hymestyn i le sydd bron â thorri,  
Arglwydd, yn dy ras ac yn dy drugaredd –  
**datguddia dy hun i ni.**

Pan fyddwn yn estyn allan am gymorth,  
am gyffyrddiad gofal a chonsarn a thrugaredd,  
boed i ni ei ganfod ym mregusrwydd cymydog,  
yn newrder dieithryn,  
Arglwydd trwy dy blant –  
**datguddia dy hun i ni.**

Pan gawn ein galw i fod yn ateb i weddi,  
i fod yn dangnefeddwyr ac yn broffwydi,  
y rhai sy'n ffyddlon i'th ffordd o heddwch a chariad,  
rho inni'r dewrder i fod yn dosturiol,  
y gras i fod yn hael,  
a'r calonnau, y dwylo a'r meddyliau i ddangos trugaredd –  
Arglwydd yn dy drugaredd,  
**datguddia dy hun trwom ni.**  
**Amen**

### GWEDDI

*(Yn seiliedig ar y Gorchymyn mwyaf)*

#### **Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon.**

Helpa ni, Arglwydd Cariad,  
i groesawu a chofleidio dy holl blant annwyl,  
i greu mannau o berthyn,  
fel pan fyddwn yn agored i niwed, y gallwn ddod o hyd i gymuned a chysylltiad,  
pan fyddwn yn ofnus, y gallwn ddod o hyd i dangnefedd a gobaith,  
pan fyddwn yn dioddef, y gallwn ddod o hyd i iachâd a chyfanrwydd.

#### **Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl enaid.**

Helpa ni, Greawdwr annwyl,  
i ddal yn ofalus bawb a grëwyd ar dy ddelw,  
gan gynnal urddas pawb,  
fel y gallwn ddod o hyd i le i fynegi ein hunaniaeth a roddwyd i ni gan Dduw,  
fel y gallwn ddod o hyd i undod a dewrder yng nghanol rhaniadau,  
fel y gallwn ddathlu ein hunigrywiaeth a'n gwahaniaeth  
mewn ffyrdd creadigol a bywhaol,  
fel y gall pawb gael eu derbyn a'u cadarnhau.

**Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl feddwl.**

Helpa ni, Dduw Rhyfeddod,  
 i ddeall dy gynllun ar ein cyfer yn llawn ac yn ddwfn,  
 i wybod dy fod ti eisiau i bob un o'th blant  
 i fyw i'w potensial llawn.  
 fel y gallwn ni brofi dy air yn real ac yn wir yn ein bywydau,  
 yn ein heglwysi, ac yn ein cymunedau.

**Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl nerth.**

Dduw'r Creawdwr – Ti wnaeth y cosmos,  
 taflaist y sêr i'r gofod,  
 llywiaist ryfeddod y greadigaeth y down ar ei draws bob dydd.  
 Ti wnaeth ein llunio ni, pob un ohonom,  
 ein hadnabod ni cyn i ni gael ein geni,  
 ac rwyf yn teithio gyda ni nawr.  
 Dysg i ni dy rythm o gariad, o anadlu bywyd a chreu harddwch.  
 boed i bopeth a wnawn fod er Dy ogoniant,  
 ac er dyfodiad dy Deyrnas yma ar y ddaear fel yn y nefoedd.  
 Dywedwn gyda'n gilydd nawr,  
 y geiriau a ddysgodd dy Fab a'n Gwaredwr,  
 Iesu Grist, i bawb sy'n ei ddilyn i weddiö –

**Ein Tad yn y nefoedd,****sancteiddier dy enw;****deled dy deyrnas;****gwneled dy ewyllys,****ar y ddaear fel yn y nef.****Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol,****a maddau inni ein troseddau,****fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;****a phaid â'n dwyn i brawf,****ond gwared ni rhag yr Un drwg.****Oherwydd eiddo ti yw'r deyrnas a'r gallu a'r gogoniant am byth.****Amen**

## GWEDDI

*[mae'r weddi hon yn codi cwestiynau sy'n amwys o ran ochrau neu safbwyntiau, ac efallai'n dangos gofod cyffredin dynoliaeth?!]*

Rydym am dy gydnabod di Dduw –  
yng nghanol placardiau a phrotestiadau,  
wrth i ni weld baneri cenedlaethol yn chwifio'n uchel,  
neu wedi'u peintio ar gylchfannau ac wedi'u sgriblan ar adeiladau.

Ble wyt ti Arglwydd?

A wyt ti yn nwylo'r rhai sy'n ysgwyd dwrn at anghyfiawnder?

Arglwydd yn dy drugaredd,  
**Gad inni dy weld di.**

Rydym am dy gydnabod di Dduw –  
wrth i lawer ymgynnull i leisio eu rhwystredigaeth, eu dicter, eu fersiwn,  
mewn geiriau a genir neu a weddiir, mewn sŵn a chynddaredd,  
mewn dicter ac ing.

Ble wyt ti Arglwydd?

A wyt ti yng nghri'r rhai sy'n ceisio cydnabyddiaeth?

Arglwydd yn dy drugaredd,  
**Gad inni dy glywed di.**

Rydym am dy ogoneddu, Dduw,  
wrth i ni ymgodymu â sut i garu yng nghanol casineb,  
wrth i ni weithio dros heddwch, gan ddyheu am i'r trais ddod i ben,  
wrth i ni geisio cyfiawnder, wrth i ni ddeisyf trugaredd.  
Boed i ni ddangos gras,  
boed i ni ymgorffori tosturi,  
a boed i ni i gyd fod yn unedig wrth ddilyn dy freuddwyd dros yr holl bobl.

Arglwydd yn dy drugaredd  
**clyw ein gweddi**

**GWEDDI AM FADDEUANT**

Down gerbron y Duw Bregus,  
 Ti a gymerodd arnat gnawd ac asgwrn –  
 yn bodloni bod yn bopeth yr oeddem ei angen i Ti fod a chymaint mwy.

Wrth i ni gofio dy enedigaeth,  
 yng nghanol meddiannaeth ac alltudiaeth:  
 gofynnwn am faddeuant am yr holl bethau a wnaethom  
 ac a barhawn i'w gwneud a fyddai'n gormesu ac yn dad-ddyneiddio.  
 pan fyddwn yn llefaru geiriau a fyddai'n melltithio ac yn condemnio,  
 pan fyddwn yn rhan o bechodau hiliaeth a gormes,  
 pan fyddwn yn aros yn dawel neu'n cerdded i fwrdd oherwydd  
 mai dyma'r opsiwn hawdd,  
 maddau i ni Arglwydd.

Wrth i ni gofio dy farwolaeth,  
 yng nghanol ymerodraeth, llygredd a thrais systemig:  
 gofynnwn am faddeuant am yr holl ddewisiadau a wnawn sy'n ein gwneud  
 yn rhan o'u drygioni.  
 Pan fyddwn yn dewis casineb dros gariad, trais dros heddwch, rhaniad dros undod,  
 wyneba ni O Dduw,  
 gyda'th oleuni a'th gariad, gyda'th ras a'th drugaredd,  
 a maddau i ni, gweddiwn –  
 yn enw grymus Iesu Grist,  
 Tywysog Tangnefedd  
 Gobaith y Cenhedloedd,  
 a Gwaredwr a Phrynwr pawb.

**GWEDDI**

Duw sy'n gwrando,  
 gofynnwn i Ti ostwng Dy glust at y rhai ohonom  
 sy'n teimlo'n ynysig, yn ddiamddiffyn ac yn agored i niwed.  
 erfyniwn am drugaredd.

Grist Dioddefus,  
 gofynnwn i Ti fod gyda phawb ohonom sy'n dioddef,  
 yn ein poen a'n hofn, boed inni brofi Dy bresenoldeb cariadus, tyner gyda ni,  
 a'th ofal addfwyn, wrth i Ti aros gyda ni.

Ysbryd Gras,  
 bydd yn gwmpawd i ni wrth i ni geisio cyfiawnder a heddwch,  
 wrth i ni deithio gyda'n gilydd tuag at Freuddwyd Duw yn dod yn fyw,  
 i'r holl bobl – yn yr amser a'r lle hwn ac am byth. Amen

### GWEDDI PERTHYN

Dduw tri yn un,  
Tri ac eto Un,  
cylch diddiwedd o gariad a bywyd –  
gofynnwn i Ti ein hamgylchynu,  
ein lapio yn Dy ras a'th drugaredd,  
ein dal yn Dy goflaid wrth i ni gael ein croesawu i'th bresenoldeb cynhaliol.

Boed inni wybod a theimlo'n ddwfn –  
ein bod yn perthyn yn llwyr ynot Ti,  
ein bod yn dod o hyd i'n cartref ynot Ti.  
Ti yw'r Un sy'n ein creu yng nghroth ein mam,  
yr Un sy'n saernïo ein bodolaeth ac yn ein galw mewn cytgord â Thi, â'n gilydd  
ac â'r holl greadigaeth.

Cynorthwya ni i fyw'r alwad hon gyda gostyngeiddrwydd ac angerdd,  
wrth i ni deithio rhwng dyfodiad Dy Deyrnas yn y presennol ac eto i ddod.  
Boed inni adnabod yr arwyddion,  
boed inni wrando ar y rhybuddion,  
boed inni adeiladu gyda'n gilydd,  
a boed inni brofi cariad parhaol  
Duw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,  
yn awr a hyd byth.  
Amen

### BENDITHION A GWEDDIAU ANFON

Dduw Cyfiawnder,  
ysbrydola ni i fyw gyda gras ffyrnig  
wrth i ni bwyso at ein hunaniaeth a roddwyd i ni gan Dduw.  
Boed i ni fod y tân sy'n cynnau Dy gariad,  
boed i ni fod yr afon gref sy'n dod â chyfiawnder,  
boed i ni fod y goleuni sy'n tywys eraill tuag at gartref ynot Ti.  
Anfon ni allan yng ngrym Dy Ysbryd Glân.  
Amen

**BENDITH**

Dduw cariad,  
 anfon ni allan yn Dy enw,  
 â chalonnau gostyngedig,  
 i geisio undod a gweithio dros gyfiawnder.  
 Boed i Dy gariad chwalu muriau rhagfarn ac ymraniadiadau sydd o'n blaenau,  
 a boed i ni adeiladu gyda'n gilydd mewn cariad ac undod  
 Dy Deyrnas yma ar y ddaear.  
 Amen.

**BENDITH/GWEDDI ANFON**

Ysbryd Glân,  
 tyn ni i'r mannau ble'r wyt ti'n bresennol,  
 boed i ni fod yn freuddwydwyr ac yn adeiladwyr  
 byd wedi'i wneud o'r newydd,  
 wedi'i adfywio a'i achub,  
 wedi'i drwsio a'i adnewyddu.  
 Gofynnwn hyn yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.  
 Amen.

**BENDITH/GWEDDI ANFON**

Arglwydd Iesu Grist,  
 fe gerddaist rhwng cymunedau, gan groesi ffiniau,  
 gan gyrraedd calonnau a meddyliau mewn tosturi, mewn trugaredd.  
 Fe wynebaist anghyfiawnder â dewrder a gras,  
 gan chwalu rhwystrau a throi byrddau drosodd.  
 Boed inni gael ein hysbrydoli a'n grymuso i wneud yr un peth,  
 ac wrth wynebu heriau hiliaeth a rhagfarn,  
 boed inni eu dymchwel a'u dadwreiddio  
 ynom ni ein hunain, ein cymunedau a'n cymdeithas.  
 Y cyfan oll er Dy ogoniant ac yn Dy nerth.  
 Amen.

## GWEDDIAU CREADIGOL

### GWEITHGAREDD MYFYRIOL

#### PWY YDYCH CHI’N DWEUD YDW I?

pwy ydych chi’n dweud ydw i?

dieithryn

ffrind

gwrthwynebydd

ffoadur

pwy ydych chi’n dweud ydw i?

codwr twrw

symbylydd

esgymun

tramgwyddwr

pwy ydych chi’n dweud ydw i?

torrwr cyfraith

aflonyddwr

ansefydlogwr

cychwynnydd tân

Pwy ydych chi’n dweud ydw i?

gwrthryfelwr

rabi

proffwyd ffug / cyffrowr terfysg

Gwaredwr? /prynwr?

Darllenwch y myfyrdod hwn eto, ac wrth ystyried yr holl enwau gwahanol a roddwyd ar lesu drwy gydol ei oes, ystyriwch beth yw eich profiad o gael eich enwi ac o enwi.

Yn Mathew 16:13-20 gofynnodd Iesu i'r Disgyblion – “pwy ydych chi'n dweud ydw i?”.

Yn ein teithiau ffydd, rydym ni hefyd yn wynebu'r cwestiwn hwnnw, a gallwn ni wneud y dewis bob dydd pwy ydym ni'n ei ystyried yw Iesu, a sut rydym ni'n byw yng ngoleuni hynny.

Rydym yn dystion i enwi a labelu pobl boed yn y newyddion, protestiadau neu wrthdaro lleol ar draws cyfryngau cymdeithasol ac allfeydd newyddion 24/7. Mae pob person wedi'i greu ar ddelw Duw, ac ym mhob eiliad gallwn ddewis, gweld celfyddyd Duw, neu ddad-ddyneiddio. Darllenwch y myfyrdod eto, a chymerwch amser i ystyried:

1. Pwy ydych chi'n dweud ydw i? – Pwy yw Iesu i chi ar hyn o bryd?
2. Pwy ydych chi'n dweud ydw i? – Pe baech chi'n gofyn y cwestiwn hwn i Dduw, beth ydych chi'n meddwl y byddai Duw yn ei ddweud?
3. Pwy ydych chi'n dweud ydw i? – Meddyliwch am rywun rydych wedi bod yn angharedig ag ef/hi, cymerwch ennyd i ystyried y bobl sydd wedi'u dadleoli ac yn ceisio lloches sydd yn eich ardal – pwy ydych chi'n meddwl y mae Duw yn dweud ydyn nhw?

Mewn ennyd o dawelwch, ystyriwch beth yw eich gweddi mewn ymateb i fyfyrion ar y 3 chwestiwn hyn.

## 1. GWEITHGAREDD MYFYRIOL

Clywn yr ymadrodd – “ffoaduriaid oedd y Teulu Sanctaidd” ac ni wyddom beth i’w wneud ag ef. Mae’n ddatganiad cryf, ond eto mae yno yn y stori. Maent yn ffoi, cânt eu rhybuddio gan angylion i fynd, a pheidio ag edrych yn ôl.

*Mor aml y mae llaw Duw yn achub yr anwyliaid hynny, wedi eu caru a’u trysori gan yr Hollalluog, sy’n canfod eu hunain ymhell o’r hyn y maent yn ei wybod, ac ymhell o ble yr oeddent unwaith yn ei alw’n gartref.*

Dduw, boed inni weld y rhai sy’n cael eu harwain at heddwch a diogelwch fel Dy blant, wedi’u caru a’u trysori,  
wedi’u cadw a’u hachub gennynt Ti –  
a boed inni eu trin felly,  
gan barhau â’th ofal amdanynt  
trwy fyw ein cyfrifoldeb –  
i garu ein cymydog a chroesawu’r dieithryn.

Darllenwch y stori o Mathew 2:13-23 ychydig o weithiau, gan ddefnyddio’r arfer o Lectio Divina neu ‘Ddarllen Dwyfol’ – arfer hynafol o ddarllen a gweddio’r Beibl yn araf ac yn fyfyril.

Wrth i ni dreulio amser ym mhresenoldeb Duw yn darllen drwy’r testun yn araf sawl gwaith, fe’n gwahoddir i wrando’n ddwfn am lef ddistaw fain Duw. Ewch ar eich cyflymder eich hun, neu efallai y bydd y rhythm isod o gymorth:

- Darllenwch y darn – sylwch pa eiriau neu ymadroddion sy’n eich denu atynt.
- Darllenwch y rhan o’r stori sy’n eich denu fwyaf ato.
- Darllenwch y rhan hon unwaith eto gan ofyn – beth allai Duw fod yn ei ddweud?
- Beth yw eich gweddi ar hyn o bryd?
- Beth fyddwch chi’n ei wneud nawr mewn ymateb?

Cymerwch amser nawr, i ystyried pwy rydych chi’n ei adnabod, neu pwy rydych chi efallai wedi’i weld yn eich ardal, sy’n blant annwyl i Dduw, wedi’u dadleoli ac yn chwilio am loches.

Sut allech chi weddio drostyn nhw, mewn gair ac mewn gweithred?

## 2. IESU O NASARETH

*Nasareth! A all unrhyw beth da ddod o'r fan honno? gofynnodd Nathanael.*

*"Tyrd i weld!" – oedd yr ateb.*

*Yn hytrach na sefyll o bell gan gymryd yn ganiataol stori'r 'person arall' hwnnw, pam na fyddem yn aros, trigo gydag ef, cymryd amser i ddod i'w adnabod, neu hyd yn oed gwrando?*

*Efallai, yn y gweithredoedd caredig syml hyn, y byddwn yn gweld pa mor werthfawr a chu yw'r person – er ei fod yn wahanol i ni – mae'n rhan o waith celf Duw.*

Iesu, maddau i ni pan fyddwn yn diystyru pobl,  
pan fyddwn yn stereoteipio ac yn proffilio.  
Helpa ni i weld y ddynoliaeth  
a anadlaist Ti, Dduw'r Creawdwr, ynddynt.  
Helpa ni i estyn gras a chroeso,  
trugaredd a gofal,  
ac i gymryd amser i werthfawrogi Dy waith celf.  
Darllenwch y stori o loan 1:43-51 ychydig o weithiau,  
gan ddefnyddio arfer Lectio Divina.

Wrth i ni dreulio amser ym mhresenoldeb Duw yn darllen drwy'r testun yn araf sawl gwaith, fe'n gwahoddir i wrando'n ddwfn am lef ddistaw fain Duw. Ewch ar eich cyflymder eich hun, neu efallai y bydd y rhythm isod o gymorth:

- Darllenwch y darn – sylwch pa eiriau neu ymadroddion sy'n eich denu atynt.
- Darllenwch y rhan o'r stori sy'n eich denu fwyaf ato.
- Darllenwch y rhan hon unwaith eto gan ofyn – beth allai Duw fod yn ei ddweud?
- Beth yw eich gweddi ar hyn o bryd?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud nawr mewn ymateb?

Cymerwch amser i ystyried y bobl yn eich cymunedau (lleol, gwaith, ysgol ac yn y blaen) – yn y gwahaniaeth a'r amrywiaeth, sut ydych chi wedi profi hyn fel rhywbeth cadarnhaol a negyddol?

Beth allai eich gweddi fod mewn ymateb i ystyried hyn?

### 3. IESU, EISTEDDODD WRTH Y FFYNNON.

*Nid oedd ef y math o berson a ddylai fod yno.  
Nid o'r lle iawn,  
ond eto, nid oedd hi chwaith.  
Menyw a oedd wedi gweld bywyd.  
Pwy ydym ni i farnu?  
Roedd hi'n cydnabod beth oedd yn ei olygu i addoli mewn ysbryd a gwirionedd.*

Ysbryd Glân,  
Arwain ni i leoedd adfywiol,  
i bresenoldeb pobl yr ydym leiaf yn eu disgwyl, ond sy'n troi allan i fod yn fendith  
i ni, a ninnau iddynt hwy.  
Duw, mae dy olion bysedd arnom ni i gyd,  
maent ar y rhai yr ydym yn eu cyfarfod, neu'n cerdded heibio iddynt, neu'n eu  
barnu, neu weithiau gwaeth.  
Helpa ni i'th adnabod, ac i roi llety i angylion gyda phob cyfle sydd gennym.  
Dysg ni beth mae'n ei olygu i fyw mewn ysbryd ac mewn gwirionedd.

Darllenwch y stori o loan 4:1-42 ychydig o weithiau, gan ddefnyddio arfer Lectio Divina. Wrth i ni dreulio amser ym mhresenoldeb Duw yn darllen drwy'r testun yn araf sawl gwaith, fe'n gwahoddir i wrando'n ddwfn am lef ddistaw fain Duw. Ewch ar eich cyflymder eich hun, neu efallai y bydd y rhythm isod o gymorth:

- Darllenwch y darn – sylwch pa eiriau neu ymadroddion sy'n eich denu atynt.
- Darllenwch y rhan o'r stori sy'n eich denu fwyaf ato.
- Darllenwch y rhan hon unwaith eto gan ofyn – beth allai Duw fod yn ei ddweud?
- Beth yw eich gweddi ar hyn o bryd?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud nawr mewn ymateb?

Ystyriwch amser pan oeddech chi'n teimlo eich bod chi'n perthyn, neu pan gawsoch chi groeso. Nawr ystyriwch amser pan na chawsoch groeso.

Yn sgil cofio neu rannu straeon o'r cyfnodau hyn, ystyriwch bobl yn eich cymunedau (lleol, gwaith, ysgol ac yn y blaen) – sut allech chi weddio mewn gair a gweithred gyda nhw a throstyn nhw?

## BANER – GORSAFOEDD GWEDDI/GWEITHGAREDD

Gan ein bod wedi gweld ymddangosiad baneri cenedlaethol ar bolion lampau ac wedi'u peintio mewn amrywiol ffyrdd, efallai y gallwn adennill y symbolau hyn o hunaniaeth genedlaethol mewn ffyrdd sy'n greadigol, yn rhoi bywyd ac yn uno.

Gan ddefnyddio amrywiol faneri cenedlaethol – a chan nodi sut mae ganddynt ystyron sy'n cyfeirio at dreftadaeth a gwerthoedd diwylliannol ac yn y blaen, gallwn gael ein hysbrydoli i ddysgu mwy am ddiwylliannau ein cymdogion, ac i rannu yn y cyfoeth y gall eu treftadaeth a'u diwylliant ei ddwyn i ddeialog â'n rhai ni ein hunain. Ac wrth i ni wneud hynny, gallwn ddod o hyd i dir cyffredin, a gallwn gael ein hysbrydoli i weddio mewn gair a gweithred, am undod plant Duw a chreu Teyrnas Dduw yn dyner gyda'n gilydd, fesul darn.

Efallai eich bod yn gwybod cenedligrwydd y bobl yn eich ardal leol, ond os nad ydych, gellir dewis ychydig o faneri o wahanol wledydd trwy chwiliad syml ar-lein. Mae gan faneri arwyddocâd i'w trefniant dylunio a'u cynllun, ac i'w cynlluniau lliw.

Mae yna lawer sy'n dod o wahanol rannau o'n byd poenus, i geisio tosturi a thrugaredd, i chwilio a le ble gellir dod o hyd i fywyd o gyfanrwydd. Wrth ddarganfod cyfoeth diwylliant, gallwn ddefnyddio hyn i rymuso gweddi dros genhedloedd cysylltiedig, a'r bobl o'r lleoedd hyn yn ein cymunedau.

Efallai yr hoffech ddewis ychydig o ddelweddau o faneri fel enghreifftiau a dechrau amlinellu gwerthoedd a rennir a mannau cyffredin y maent yn eu cynrychioli sy'n caniatáu inni gyfarfod mewn undod gweddigar. Anogwch bobl i edrych ar/ymchwilio i faneri'r rhai yn eu cymuned, a gwneud yr un broses o ddod o hyd i gyffredinrwydd a gofod cyfrannol.

Dyma rai o'r lleoedd y mae pobl yn dod i'r DU ohonynt i geisio lloches: Afghanistan, Bangladesh, Iran, Eritrea, Syria, Swdan, Wcráin. Yn hanesyddol rydym wedi gweld llawer o bobl o Jamaica a rhannau eraill o'r Caribî, India, Pacistan, Tsieina ac yn y blaen.



### BANERI PRYDAIN

Mae baneri pob un o genhedloedd y DU yn cynrychioli rhannau o ddiwylliant a gobeithion y bobl.



Cymerwch ychydig o amser i edrych ar hanes y baneri, i ystyried y dyluniad a'r lliwiau a'r hyn maen nhw'n ei gynrychioli ac efallai ystyried pwy yw 'Sant' y genedl a beth oedden nhw'n adnabyddus amdano.



Wrth i chi wneud hyn, efallai y byddwch chi'n cael eich ysbrydoli i weddio dros bob cenedl a chymhlethdodau sut fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd fel y DU!



### IWERDDON

Bwriad Baner Genedlaethol Iwerddon, trilliw o wyrdd, gwyn ac oren, yw symboleiddio cynhwysiant a'r dyhead am undod rhwng pobl o wahanol draddodiadau ar yr ynys hon. Mae'r faner ddwywaith mewn lled nag y mae mewn uchder. Mae'r tri lliw o'r un maint, ac mae'r gwyrdd nesaf at y polyn fflag.



### PACISTAN

Baner werdd a gwyn gyda lleuad cilgant gwyn a seren wen 5 pwynt. Mae gwyrdd y faner yn cynrychioli mwyafrif Mwslimaidd Pacistan, gyda gwyn y faner yn cynrychioli'r crefyddau yn y wlad. Maent ochr yn ochr ar y faner, yn symboleiddio gofod i bawb yng nghanol y diwylliant. Mae'r seren a'r cilgant, er eu bod yn aml yn cynrychioli Islam, hefyd yn cynrychioli cynnydd a golau a gwybodaeth.



### ERITREA

Mae'r faner wedi'i gwneud o 3 thriongl lliw: gwyrdd, sy'n cynrychioli amaethyddiaeth yr ardal glas, sy'n cynrychioli elfen forol y wlad coch, sy'n cynrychioli'r frwydr dros ryddhad.



### BANGLADESH

Mae'r faner wedi'i gwneud o gefndir gwyrdd, gyda disg goch yn y canol. Mae gwyrdd yn cynrychioli tirweddau gwyrddlas y wlad ac optimistaeth ieuenctid. Mae'r cylch coch yn cynrychioli haul gobaith yn codi a dechrau newydd.



### SWDAN

Mae'r faner wedi'i gwneud o driongl gwyrdd a 3 streipen o goch, gwyn a du. Mae'r coch yn dynodi brwydr, y gwyn yn dynodi heddwch ac optimistaeth, a'r du yn symboleiddio tir a phobl Swdan. Mae'r gwyrdd yn cynrychioli ffrwythlondeb y tir.

**GWEITHGAREDD:**

Wrth i chi ddod â'r delweddau hyn a'r wybodaeth am ddyluniad y faner at ei gilydd, gallwch greu fersiynau lluniadu llinell y gellir eu lliwio – a thra bod pobl yn gwneud hynny, mae ychydig o awgrymiadau/meddylliau syml i'w hystyried wrth wneud y gweithgaredd hwn yn ffordd ysgafn o weddio'n greadigol. Gallwch hefyd argraffu delweddau lliw llawn o'r faner a chreu gorsaf weddi ar gyfer y genedl benodol honno a'r grŵp pobl.

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi grynhoi o amgylch syniadau baneri, a'r gobaith yw y bydd yn ysbrydoli gweddi dosturiol dros y rhai sy'n dod i'n cymunedau, dros yr holl bobl sy'n galw eich cymuned leol yn gartref, a dros y dreftadaeth hardd sydd gennym ni ledled Prydain ac Iwerddon, o bobl o wahanol wledydd yn dod yma ac yn cyfoethogi ein bywydau, ein cymdeithas a'n diwylliant.

Archwiliwch y gwahanol ffyrdd y gallwch chi rannu straeon gyda'r nifer o wahanol bobl yn eich ardal.

**MYFYRIWCH:**

Mae yna lawer o wahanol ardaloedd ledled Prydain ac Iwerddon ble mae rhaniad ac aflonyddwch ynghylch mudo yn cynyddu. Nid yw hwn yn senario cyffredinol, felly cymerwch amser i ystyried sut mae pethau yn eich ardal chi. A boed tensiwn ai peidio, gofynnwch:

- Sut olwg fyddai ar gynnydd yn eich ardal chi – yn benodol ym maes Teyrnas Dduw yn cael ei gwneud yn real – gyda chariad, tosturi a thrugaredd yn bresennol, a phawb sydd yn y canol yn cael darpariaeth a chyflawnder bywyd?

**GWEDDIWCH:**

Diolchwch am harddwch yr amrywiaeth y mae Duw wedi'i chreu yng ngwahanol genhedloedd y ddaear.

Gweddiwch ar Dduw y bydd heddwch a goddefgarwch yn dod yn real, neu'n cael eu dyfnhau, yn eich cymunedau – gyda phobl o wahanol ddiwylliannau yn dod o hyd i ffyrdd o gydweithio i adeiladu Teyrnas Dduw.

Gofynnwch i'r Ysbryd Glân eich tywys wrth i chi ystyried ffyrdd o weinidogaethu i eraill ac adeiladu Teyrnas Dduw gyda'ch gilydd.

Gweddiwch y bydd gennych gyfle i dderbyn bendith a gweinidogaeth gan eraill i chi'ch hunan.

---

DYWEDODD WRTHYT,  
FEIDROLYN, BETH SYDD  
DDA, A'R HYN A GAIS YR  
ARGLWYDD GENNYT: DIM  
OND GWNEUD BETH SY'N  
IAWN, CARU TEYRNGARWCH,  
ACYMOSTWNG I RODIO'N  
OSTYNGEDIG GYDA'TH DDUW.

Micha 6:8

---

**RHAN DAU:  
DARLLENIADAU BEIBLAIDD,  
EMYNAU A GWEDDIAU**



## ADNODAU O'R YSGRYTHUR Y GELLIR EU DEFNYDDIO

### Hosea 12:6

A thithau, trwy nerth dy Dduw, dychwel,  
cadw deyrngarwch a barn,  
a disgwyl wrth dy Dduw bob amser.

### Rhufeiniaid 12:21

Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni.

### Diarhebion 22:2

Y mae un peth yn gyffredin i gyfoethog a thlawd:  
yr Arglwydd a'u creodd ill dau.

### Actau 10:34-35

A dechreuodd Pedr lefaru: "Ar fy ngwir," meddai, "rwy'n deall nad yw Duw yn dangos ffafriaeth, ond bod y sawl ym mhob cenedl sy'n ei ofni ac yn gweithredu cyfiawnder yn dderbyniol ganddo ef."

### Colosiaid 3:9-11

Peidiwch â dweud celwydd wrth eich gilydd, gan eich bod wedi diosg yr hen natur ddynol, ynghyd â'i gweithredoedd, ac wedi gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd, sy'n cael ei hadnewyddu mewn gwybodaeth ar ddelw ei Chreawdwr. Nid oes yma ragor rhwng Groegiaid ac Iddewon, enwaediad a dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd; ond Crist yw pob peth, a Christ sydd ym mhob peth.

### Diarhebion 31:8-9

Dadlau o blaid y mud,  
a thros achos yr holl rai diobaith.  
Siarad yn eglur, a rho farn gyfiawn;  
cefnoga achos yr anghenus a'r tlawd.

### Micha 6:8

Dywedodd wrthyt, feidrolyn, beth sydd dda,  
a'r hyn a gais yr ARGLWYDD gennyt:  
dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch,  
ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

### Amos 5:24

Ond llifed barn fel dyfroedd  
a chyfiawnder fel afon gref.

### Eseia 1:17

Peidiwch â gwneud drwg, dysgwch wneud daioni.  
Ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig,  
amddiffynnwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw.

### Salm 82:3

Rhowch ddedfryd o blaid y gwan a'r amddifad,  
gwnewch gyfiawnder â'r truenus a'r diymgeledd.

## **EMYNAU A CHANEUON MAWL**

- Arglwydd pob gobaith ac Arglwydd pob hoen
- Bydd yn welediad fy nghalon a'm byw
- Cariad na bu ei fath
- Cerddodd lle cerddaf fi
- Cyffwrdd ynom, Dduw pob llafar
- Dragwyddol Dduw, sy'n Dad holl deulu'r llawr
- Duw faddeuodd im (Rhoddais yn rhad)
- Duw sydd gariad, caned daear
- Duw wyt i'r tlawd (Harddwch am friwiau lu)
- Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd
- Ein gwlad a'n pobl gofiwn nawr
- Ein Tad wyt ti, O uchel lôr
- Fe welwn orsedd fry
- Frawd neu chwaer, fe'th wasanaethaf
- Hyfryd lais Efengyl hedd
- Mae Iesu Grist yn aros
- O am awydd cryf i feddu
- O! Cenwch fawl i Dduw
- O Dywysog ein tangnefedd
- O rho dy fendith, nefol Dad
- O tyred i'n gwaredu, Iesu da
- Rho i ni lygad Crist i weld yn iawn
- Rho imi nerth i wneud fy rhan
- Rhyfeddol Dduw a Chreadigol Un
- Trown atat Dduw ein Tad mewn gweddi daer
- Tyrd nawr, O Dywysog hedd
- Un sylfaen fawr yr Eglwys

## GWEDDÏAU

### GWEDDI DROS HEDDWCH

Arglwydd, yng nghythrwl ein hoes, gweddiwn am heddwch.  
Wrth i ni wyllo'r adroddiadau am drais,  
a gweld dinistr bywyd,  
gweddiwn am heddwch.

Wrth i ni weld galar teuluoedd a chymunedau  
mewn gwledydd sydd wedi'u rhwygo gan ryfel, fel Gaza a'r Wcráin,  
rydym yn erfyn gyda'r rhai sydd wedi'u poenydio a'r rhai sydd wedi'u taro gan alar,  
y bydd diwedd  
ar erchyllterau rhyfel.  
Gweddiwn am heddwch.

Wrth i ni ddilyn yr adroddiadau am symudiadau gwleidyddol  
ar hyd strydoedd trafodaethau,  
pob un â'i bortffolios o hunan-fudd,  
ac yn wyliadwrus bob amser o ymatebion eu cefnogwyr,  
gweddiwn am gymod gobeithiol.  
Gweddiwn am heddwch.

Wrth i ni deimlo tosturi tuag at  
y digartref a'r newynog,  
y sâl a'r anafus,  
y ffoaduriaid yn eu tir eu hunain,  
rydym yn cydnabod ein diffyg gweithredu ein hunain  
ac yn teimlo'n edifeiriol ac yn euog.  
Arglwydd, maddau i ni am lithro  
i fodd anysgytiadwy.  
Deffra ni, Arglwydd, i realiti pobl eraill  
wrth i ni weddio am heddwch.

Yn enw Iesu.

**Amen**

*Denzil Ieuan John*

## **GWEDDI AM DOSTURI**

Arglwydd pob cenedl a Duw popeth,  
 clyw ein gweddi dros y ffoaduriaid,  
 sy'n dod i mewn i'r DU yn chwilio am gartref diogel.  
 Mae'n ein poeni ni, Arglwydd, fod cymaint yn gadael eu mamwlad,  
 mewn anobaith ac ofn am eu diogelwch eu hunain,  
 yn chwilio am ddiogelwch iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd,  
 yn peryglu eu bywydau ac yn talu'n drwm i gangiau diegwyddor,  
 gan ganfod eu gobeithion wedi'u chwalu ac yn byw mewn ofn.

Mae'n peri pryder i ni, Arglwydd, fod rhai ym Mhrydain ac Iwerddon  
 sy'n dangos nodweddion hiliol wedi'u gwisgo mewn ideoleg wleidyddol,  
 pobl sydd wedi'u hysbrydoli gan feddwl pro-genedlaetholgar,  
 heb galon dros y rhai sy'n daer am normalrwydd,  
 yn estyn allan am gymuned o ofal  
 ac yn derbyn gwrthodiad ym mhob man.  
 Dduw Dad, boed iddynt wybod dy fod yn eu caru,  
 a bod pob gwrthwynebydd gwleidyddol yn deall bod angen i'r dynion a'r  
 menywod hyn  
 deimlo cariad dy eglwys yn eu bywydau.

Dduw Dad, helpa ni i fyfyr ar dy gariad cynhwysol  
 a'th ras bellgyrhaeddol yn y byd heddiw.

Dduw Dad, maddau i ni os ydym yn tybio y gall pobl  
 neilltuo dy ras yn ôl lle ganwyd pobl  
 a pheidio ag ymwneud â'r rhai mewn angen ble bynnag y maent ar hyn o bryd.

Dduw Dad, rhwyma ni ynghyd â phobloedd o bob cenedl,  
 beth bynnag fo'u hil, lliw neu greddo a derbyn ein dynoliaeth gyffredin,  
 wrth i ni weld dynoliaeth gyfan fel dy deulu agos.  
 Yn enw Iesu.

**Amen.**

*Denzil Ieuan John*

---

‘DYMA FY NGORCHYMYN I:  
CARWCH EICH GILYDD FEL  
Y CERAIS I CHWI.’

Ioan 15:12

---



**RHAN TRI:  
PREGETHAU**

## 1. CARU EIN CYMYDOG – MARC 12:28-34

### PARCH MANDY RALPH

Mae Iesu'n ein dysgu mai caru Duw â'n holl fodolaeth a charu ein cymdogion fel ni ein hunain yw'r ddwy egwyddor bwysicaf ar gyfer byw'n Gristnogol. Maent yn greiddiol i ddilyn mewn ffydd a bod mewn perthynas â Duw. Siawns bod hynny'n ymddangos yn ddigon syml. Cariad. Nid oes jargon cymhleth, dim tudalennau o ganllawiau, dim angen asesiad risg. Dim ond gorchymyn neu os yw'n well gennych gais, i garu ein cymdogion, fel rydyn ni'n ein caru ein hunain. Ond daliwch eich gafael, ai fy nghymydog drws nesaf yw hwnnw, y cymdogion rwy'n dod ymlaen â nhw, y rhai sy'n meddwl fel fi, yn addoli fel fi, neu ai'r cymdogion sy'n edrych yn wahanol, yn siarad yn wahanol, â'u diwylliant yn wahanol i'm diwylliant i? Ai'r rhai anodd yw hynny, sydd â safbwyntiau gwahanol i mi ac sydd, a dweud y gwir, yn eithaf annifyr? Mae Iesu'n dweud IE pendant i hynny!

Fel Cristnogion gofynnir i ni garu ein holl gymdogion, waeth pwy ydynt. Ydy, mae hynny'n golygu hyd yn oed y rhai a all roi ein hamynedd ar brawf! Os byddwn yn stopio i feddwl amdano, gofynnir i ni yn gyntaf garu Duw â'n holl galon, meddwl, corff a nerth, y cwbl, dim eithriadau. O ran caru ein cymdogion, mae hi'r un peth, pob un ohonynt, y cwbl, dim eithriadau. Dyna beth mae Iesu yn ei ofyn gennym pan fyddwn mewn perthynas â Duw. Mae caru Duw a charu ein cymydog wedi'u cydblethu ac felly mewn ffydd ni allwch wneud y naill heb y llall. Ond a ydym yn caru ein holl gymdogion? A allwn ni â llaw ar ein calon, ddweud yn onest ein bod yn caru ein cymdogion? Y protestiadau ynghylch mewnfudo sydd wedi digwydd ledled y wlad, wedi'u dangos ar y teledu, wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol dros yr ychydig fisoedd diwethaf – y rhethreg, yr iaith, y postiadau, gweithredoedd eraill, mae'r rhain ymhell o fod yn garu ein cymydog.

Y protestiadau yn erbyn mewnfudo, ceiswyr lloches, y rhai o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. Pobl o Liw, nad ydynt yn cael eu hystyried neu nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn gymydog i ni. Lledaenu gwybodaeth anghywir, codi ofn, erledigaeth a chasineb. Nid yw hynny'n cyfateb i garu ein cymydog. Os ydym wedi rhoi'r cyfan i Dduw ac wedi cyffesu ein ffydd fel Cristnogion ac ymrwymo i gerdded yn ffyrdd Iesu, yna mae hynny'n golygu caru ein holl gymdogion, peidio â bod yn gas ac yn ddifriol ohonynt. Rwy'n weinidog Du, benywaidd, sydd bellach yn anabl, a phan ddywedir wrthyf am 'fynd yn ôl adref', byddaf yn ymateb – 'Wel, i Glasgow fyddai hynny,' gan fy mod wedi fy ngeni a'm magu yn yr Alban. Rwy'n Albanwraig. Mae'n debyg nad hwn yw'r ymateb disgwyledig ond ni ddylwn orfod profi fy mod yn gymydog i chi. Ni ddylai neb orfod gwneud hynny. Rydym i gyd wedi ein creu ar ddelw Duw ac rydym i gyd yn rhan o deulu Duw.

Mae ein ffydd yn gofyn inni fod yn gariadus at Dduw ac at ein gilydd. Ni ofynnir inni fod yn berffaith, gan nad yw'r un ohonom felly, ond i fod yn barod i ddilyn mewn ffydd. Mae caru ein cymydog yn gofyn am gariad gweithredol gennym ni i gyd: mae hynny'n cynnwys sefyll dros eich cymydog sy'n dioddef cam-drin hiliol, dangos cariad a chroeso i'r rhai sy'n chwilio am lannau mwy diogel i fyw ynddynt wrth iddynt ffoi rhag gwrthdaro a brawiau eraill.

Mae'n cynnwys peidio â beio'ch cymdogion am holl gamweddau'r byd hwn fel opsiwn hawdd a chymryd yr amser i ddeall y problemau go iawn sy'n cael eu hwynebu heddiw.

Cawn ein hatgoffa hefyd o gariad Duw tuag atom, a ddangosir drwy aberth Iesu ar y groes. Rhoddodd Iesu'r cyfan drosom ni, bu farw drosom ni ar y groes er mwyn maddau ein pechodau, ac i ni gael bywyd tragwyddol. Aberthodd Iesu ei hun yn wirfoddol mewn cariad drosom ni i gyd. Ni wnaeth ef ddewis a dethol dros bwy y gwnaeth hyn. Roedd yn weithred unwaith ac am byth ac er mwyn pawb.

Felly, pam y dylai ein cariad ni fod yn wahanol? Mewn ffydd gallwn gofleidio ein cymydog a gweld mewnfudo a'r gwahanol ddiwylliannau yn dod ynghyd fel bendith. Tapestri rhyfeddol o fywyd yn ei holl liw gogoneddus a llawnder. Mewn ffydd gall pob un ohonom fod yn obaith am yfory gwell, pan fyddwn yn cerdded yn ffordd Iesu. Wedi'r cyfan, cariad Duw tuag atom yw cariad sydd y tu hwnt i fynegiant, sy'n aruthrol ac yn cwrpasu popeth.

Mae'n rhan o'r natur ddynol i fod eisiau perthyn, i fod yn rhan o gymuned, i gael ymdeimlad o hunaniaeth. Fel Cristnogion, rydym yn rhan o deulu Duw ac yn perthyn iddo. Bydd gan y rhan fwyaf ohonom deulu eglwysig yr ydym yn perthyn iddo, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb, yng Nghymru, Lloegr, Iwerddon, yr Alban, ar y tir mawr neu ar ynys. Mae'n rhywle lle gallwn fynd a rhannu mewn addoliad a chymdeithas gyda Christnogion eraill.

Mae bod yn eglwys gyda'n gilydd yn mynd y tu hwnt i unrhyw rwystrau pan fyddwn yn rhoi cariad at Dduw a'n cymydog yn gyntaf ym mhopeth a weddiwn, a ddywedwn ac a wnawn. Oherwydd nid clwb cymdeithasol unigryw yw bod yn eglwys gyda'n gilydd, mae'n fudiad byd-eang sy'n ymdrechu i estyn allan mewn cariad at eu cymydog a byw allan neges yr efengyl, lle mae pawb yn derbyn croeso ac yn cael eu cynnwys.

Mae croeso yn rhan fawr o'r hyn rwy'n ei adnabod fel fy niwylliant Albanaidd. Ni fydddech byth yn breuddwydio am beidio â chynnig rhywbeth i'w yfed a rhywbeth i'w fwyta i ymwelydd, oherwydd ni allwch weld rhywun yn mynd i ffwrdd yn llwglyd. Ymadrodd a glywir yn aml am rywun sy'n helpu ei gymydog o'i wirfodd fyddai – "le, byddent yn rhoi eu mesur olaf i chi."

Mae Duw yn rhoi cariad inni yn ddiamod, gadewch i ni wneud yr un peth. Gadewch i ni beidio â rhoi rhwystrau a ffiniau ar y cariad a ddangoswn ac a rannwn â'n cymdogion. Gyda'n gilydd fel cymuned wedi'i seilio ar gariad Duw trwy Grist, gadewch i ni dyfu cariad a all, fel Cristnogion yn tynnu at ein gilydd, fod yn aruthrol. Gadewch i ni ddefnyddio'r cariad hwnnw i ddod â gobaith, bendithion a gweithredoedd sy'n datgelu cariad Duw ynom ni. Croesawch ein holl gymdogion, fel eu bod nhw wir yn teimlo eu bod nhw'n perthyn a bod ganddyn nhw le wrth y bwrdd.

**Amen**

## 2. CÂR DY GYMYDOG: PWYSIGRWYDD CYFIAWNDER HILIOI YN 2026 – LUC 10:25-37

### RICHARD REDDIE, CTBI

Cefais fy ngeni yn Bradford, Gorllewin Swydd Efrog, a chefais fy magu mewn rhan o'r ddinas honno oedd yn ddosbarth gweithiol. Os ydych chi erioed wedi gwyllo'r opera sebon, Coronation Street, dyna'r math yna o stryd oedd gennym, gyda thai teras, toiledau allanol, a strydoedd coblog, ond yng Ngorllewin Swydd Efrog, yn hytrach na Swydd Gaerhirfryn. Ar yr adeg hynny, roedd pawb ar fy stryd yn adnabod eu cymdogion – mewn gwirionedd, gallech ddweud bod pawb yn gwybod ychydig gormod am eu cymdogion. Roeddwn i'n gwybod enwau pawb ar fy stryd – roeddwn i'n gwybod beth roedden nhw'n ei wneud am fywoliaeth – neu ddim yn ei wneud. Roeddwn i'n gwybod pa ysgolion roedd holl blant fy oedran yn eu mynychu, a byddwn i'n aml yn chwarae pêl-droed gyda'r bechgyn o oedran tebyg. Ar ben hynny, pe byddech chi'n gweld cymydog yn y stryd, yn enwedig person hŷn, a heb ddweud helo, byddech chi'n derbyn cerydd. Bydden nhw'n dweud 'ble mae dy foesau!'

Yn fwy na hynny, byddai rhai cymdogion, yn enwedig rhai o'r menywod, yn cael sgysiau hirfaith dros wal yr ardd – byddai ganddyn nhw paned o de yn eu dwylo, a bydden nhw'n siarad am bopeth dan yr haul – fel arfer yn clebran am gymydog arall yn y stryd.

Roedd ganddyn nhw ryw arfer rhyfedd hefyd – roedd yn rhyfedd i fy rhieni, oedd yn bobl Jamaicaidd, lle gallech chi fod yn eistedd gartref, yn gwyllo'r teledu gyda'r nos, a byddai'ch cymydog yn agor y drws ac yn dod i mewn i'ch tŷ yn ddi-rybudd. Weithiau, efallai y bydden nhw'n curo yn gyntaf, neu'n canu'r gloch, ond yn agor y drws wrth iddyn nhw wneud hynny, ac yn dod i mewn i'ch tŷ ac yn dechrau siarad â chi. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn beth 'cymdogol' iawn, ond ni ddaeth fy rhieni i arfer â'r haerllugrwydd hwn, ac felly bydden nhw'n cloi ein drysau ffrynt a chefn – hyd yn oed yn ystod y dydd, fel na allai hyn ddigwydd. Dwi ddim yn meddwl bod ein cymdogion yn hoffi hyn llawer, ond mae'n debyg eu bod nhw'n meddwl ei fod yn rhywbeth roedd pobl Jamaicaidd yn ei wneud!

Y peth yw, cymerais hyn i gyd yn ganiataol nes i mi symud i Lundain a sylweddoli nad yw pobl yn adnabod eu cymdogion cystal mewn dinasoedd neu drefi mwy. Er enghraifft, faint ohonom sy'n adnabod o leiaf 10 o bobl ar ein stryd, ein stâd, ein fflatiau neu ein blodwr?

Thema'r bregeth hon yw 'Câr dy gymydog'. Yr hyn sy'n ddiddorol yn y darn hwn o'r ysgrythur gan Luc yw bod y cyfreithiwr yn gofyn y cwestiwn hwn i Iesu fel ffordd o'i brofi. Nid yw mewn gwirionedd yn chwilio am yr ateb cywir i gwestiwn bywyd hanfodol, ond yn hytrach yn ceisio dal Iesu. Mae'n dechrau trwy alw Iesu'n 'athro' neu'n 'Rabi' – ac yna'n gofyn, "Beth sydd raid i mi ei wneud i etifeddu bywyd tragwyddol?" Mae hwn yn gwestiwn awgrymog – un y mae'r ateb i'w gael yn y gyfraith – lle mae arbenigedd y cyfreithiwr. Felly, mae Iesu'n ymateb yn naturiol gyda, "Beth sydd wedi'i ysgrifennu yn y gyfraith? Beth wyt ti'n ei ddarllen yno?" Yna mae'r cyfreithiwr yn ateb, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl; a'th gymydog fel ti dy hun."

Dyma ateb gwerslyfr. Yn adroddiad Mathew o'r digwyddiad hwn (Mathew 22: 34-40), Iesu sy'n rhoi'r ateb mewn ymateb i gwestiwn y cyfreithiwr am y Gorchymyn pwysicaf. Mae Iesu'n gwneud y cysylltiad rhwng caru Duw a charu eich cymydog fel chi'ch hun, fel y mae'r cyfreithiwr yn Efengyl Luc. Felly, mewn ateb i ymateb enghreifftiol y cyfreithiwr, mae Iesu'n dweud. "Rhoddaist yr ateb cywir; gwna hyn, a byddi fyw."

Ond fel y gwyddom, dim ond dal Iesu yw diddordeb y cyfreithiwr, felly mae'n gofyn y cwestiwn atodol, 'pwy yw fy nghymydog?' Mewn ymateb, mae Iesu'n adrodd dameg y Samariad Trugarog iddo. Yn adnod 30, mae Iesu'n dechrau trwy sôn am 'rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron'. Pan oeddwn i yn Israel yn 2019, gwnes y daith hon o Jerwsalem i Jericho. Os ydych chi erioed wedi gwneud y llwybr hwn, byddwch chi'n gwybod ei fod i gyd i lawr allt – mae'r llwybr i Jericho yn mynd â chi islaw lefel y môr ac mae'n llawn ogofâu. Yng nghyfnod Iesu, dyma ble byddai lladron yn cuddio ar ôl lladrata oddi ar unigolion gwirion a ddewisodd fynd ar y daith unig, beryglus hon.

Yn y ddameg hon, darllenwn fod Offeiriad a Lefiad yn mynd heibio i'r dyn a gafodd ei guro. Fodd bynnag, yna mae Iesu'n sôn bod Samariad wedi tosturio wrtho ac fe helpodd y dyn. Dywed adnod 34:

'Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiriwr, gan ddweud, "Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf."

Yr hyn a gefais yn ddiddorol oedd pan ofynnodd Iesu i'r cyfreithiwr pwy oedd yn gymydog i'r dyn clwyfedig, ni allai'r cyfreithiwr lddewig ganfod yn ei galon i ddweud y gair 'Samariad', ond mae'n dweud, 'Yr un a ddangosodd drugaredd iddo.' Mae hyn yn dangos y rhagfarn a oedd gan y cyfreithiwr tuag at y Samariaid.

Mae Sul Cyfiawnder Hiliol yn achlysur i '**gofio**', '**myfyrio**' ac '**ymateb**'. Cofiwch fod hiliaeth yn real, myfyriwch ar y ffaith bod amrywiaeth ethnig yn rhan o gynllun dwyfol Duw a dylid ei dathlu, ac ymatebwch trwy weithio dros gyfiawnder hiliol trwy weddio a gweithredu.

Gwyddom fod rhagfarn hiliol neu ethnig wedi digwydd yn y cyfnod Beiblaidd. Yn Ioan 4:9 darllenwn nad yw lddewon yn ymwneud â'r Samariaid. Mae'r adnod hon yn rhan o'r darn o'r ysgrythur lle mae Iesu'n siarad â'r wraig o Samaria wrth y ffynnon. Gallwn weld o'r stori hon a dameg Iesu am y Samariad Trugarog, fod y Samariaid yn gymuned wedi'i hymylu. Wrth wneud y Samariad yn arwr yn ei ddameg, mae Iesu'n dangos i ni fod Duw yn gwerthfawrogi pob bywyd; bod pawb wedi'u creu ar ei ddelw ac yn cael eu caru ganddo, a gallant gael eu defnyddio ganddo i hyrwyddo ei deyrnas. Yn fwy na hynny, gellid dadlau mai'r wraig wrth y ffynnon oedd y person cyntaf i Iesu ddatgelu iddi mai ef oedd y Meseia. Yna aeth y wraig hon i fwrdd a rhannu'r newyddion hwn gyda'i chyd-Samariaid, yr efenglydd cyntaf – y person cyntaf i rannu'r newyddion da am yr Arglydd Iesu Grist.

Yn nameg Iesu, dylem ni fod yn Samariad – dylem fod y bobl sydd â chariad a thrugaredd. Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed hyn o'r blaen, ond mae'n arwyddocaol bod saith llythyren gyntaf y gair Saesneg am dosturi, 'Compassion,' yn sillafu'r gair 'compass'. Mae pob cwmpawd yn pwyntio tua'r gogledd. Fodd bynnag, fel Cristnogion dylem gael cwmpawd moesol, a dylai'r cwmpawd hwnnw bwyntio at Iesu, sef personoliad tosturi a thrugaredd. Roedd cariad Iesu tuag atom mor fawr nes iddo ddioddef a marw dros ein pechodau. Mae'r Iesu hwn yn cynnig bywyd newydd i ni gyda Duw os rhown ein ffydd ynddo. Fodd bynnag, fel mae Ioan 15:12 yn datgan: Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.

Rwy'n credu bod cariad a chyfiawnder yn ddwy ochr i'r un geiniog. I mi, cariad ar waith yw cyfiawnder. Mae'r academydd Cornel West yn dweud mai 'cyfiawnder yw sut olwg sydd ar gariad yn gyhoeddus'. Os ydych chi wir yn caru rhywun, rydych chi eisiau sicrhau eu bod nhw'n rhydd, yn gyfartal, yn cael eu trin â pharch ac urddas. Yn syml, rydych chi eisiau sicrhau bod ganddyn nhw bopeth sydd gennych chi, sy'n gyfystyr â 'Caru dy gymydog fel ti dy hun', gorchymyn a geir yn Lefiticus 19:18 a Mathew 22:39.

Roedd gan Iesu ffocws clir ar gyfiawnder, a gallwn weld hynny ar ddechrau ei weinidogaeth ddaearol, yn Luc 4:18-19, pan mae'n darllen o Lyfr Eiseia:

'Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.'

Mae diwinyddion wedi dadlau bod "bod, gwneud a dweud gwirionedd a chyfiawnder" yn ganolog i fywyd Iesu. Felly, beth mae Iesu'n ei ddweud wrthym ni heddiw ynglŷn â chyfiawnder?

Dywedir wrthym am garu ein cymydog, ond y cwestiwn go iawn yw'r un a ofynnir gan y cyfreithiwr – pwy yw fy nghymydog? Yn nameg Iesu, ein cymydog yw'r person mewn trafferth – y person mewn angen. Felly, dylai ein cymydog fod unrhyw un sydd angen ein cymorth – mae'n debyg bod y cyfreithiwr a ofynnodd y cwestiwn hwn i Iesu yn disgwyl iddo olygu ffrind gorau, neu un o'i gyd-lddewon. Fodd bynnag, mae Iesu'n ehangu'r term i olygu unrhyw un sydd angen ein cymorth.

Yn fwy na hynny, mae Efengyl Luc yn dweud wrthym fod angen i ni helpu ein cymydog mewn ffyrdd ymarferol. Gallai'r Samariad da fod wedi disgyn oddi ar ei asyn, mynd at y dyn a gafodd ei daro ac offrymu gweddïau drosto, cyn mynd yn ôl ar ei asyn a marchogaeth i ffwrdd. Nawr, dydw i ddim yn dweud nad yw gweddïau'n bwysig; gweddïau yw calon y ffydd Gristnogol. Fodd bynnag, fel mae Iago 2:20 yn ei ddweud: 'Y ffŵl, a oes rhaid dy argyhoeddi mai diwerth yw ffydd heb weithredoedd?' Yn y bôn, mae ein gweithredoedd yr un mor bwysig â'n geiriau – mae angen y ddau gyda'i gilydd.



*Sut ddylai'r rhai sydd yng nghoridorau grym "rodio'n ostyngedig"?*

Beth fyddai wedi digwydd i'r dyn anafus pe na bai'r Samariad wedi ymyrryd? Efallai y byddai rhywun arall wedi dod i'w achub. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod yw y byddai wedi marw, yn ôl pob tebyg, pe bai wedi cael ei adael i ofalu amdano'i hun. Yn stori Iesu, roedd yn rhaid i'r Samariad roi triniaeth frys i'r dyn yn y fan a'r lle, ac yna roedd yn rhaid iddo fynd ag ef at berchennog y dafarn am driniaeth bellach, a oedd i gyd yn golygu bod y dyn anafus mewn cyflwr gwael – roedd angen mwy nag ychydig o dabledi Nurofen arno i'w helpu i wella.

Hefyd wrth wraidd dameg heddiw mae pwysigrwydd caru'r dieithryn. Nid oedd y Samariad yn adnabod y dyn a anafwyd. Roedd yn ddieithryn llwyr – mae'n debyg nad oedd yn gwybod dim am y dyn, ond dangosodd dosturi wrtho. Fel y gwyddom, agorodd miloedd o Brydeinwyr eu calonnau a'u cartrefi i ffoaduriaid Wcrainaidd, gan gynnig lloches a chroeso cynnes iddynt. Roedd hyn yn dangos y tosturi y mae Iesu'n sôn amdano yn ein dameg heddiw – am bwysigrwydd caru'r dieithryn.

Y gwir trist yw ein bod ni'n byw mewn byd lle mai dim ond crib y rhewfryn yw sefyllfa'r ffoaduriaid yn yr Wcráin. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, mae dros 120 miliwn o bobl wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u mamwlad oherwydd rhyfel, erledigaeth, yr argyfwng hinsawdd a thlodi, ac mae tua 35 miliwn o'r rhain yn cael eu hystyried yn ffoaduriaid. Y cwestiwn y mae angen i ni ei ofyn i ni'n hunain fel dilynwyr Iesu yw, 'a yw'r rhai a welwn ar y newyddion yn croesi Môr y Canoldir neu Sianel Lloegr yn gymdogion i ni? Os felly, a ddylem ni ymateb yn yr un ffordd ag y gwnaeth y Samariad i'r dyn anafus, yn union fel y gwnaethom i bobl yr Wcráin; neu a ddylem ni 'gerdded heibio' fel yr Offeiriad a'r Lefiad.

Gwyddom o fywyd Iesu fod gwir drugaredd a chariad go iawn bob amser yn gostus, ac yn cynnwys risg. Cymerodd y Samariad risg – nid oedd yn gwybod a oedd y dyn anafus yn esgus ei fod wedi ei anafu, a bod ganddo gyd-droseddwyd yn aros yn y llwyni i ladrata oddi arno'r eiliad byddai'n disgyn oddi ar ei asyn i'w helpu. Ni wyddai'r Samariad hyn, y cyfan a wyddai oedd bod dyn mewn angen, ac allan o dosturi cymerodd risg a'i helpu.

Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd wedi helpu pobl yn y gorffennol – pobl a ddywedodd eu bod angen ein help – dim ond iddyn nhw fanteisio arnom ni, gwaetha'r modd. Fel Cristnogion dylem fod yn graff ac yn strydgall, ond ni ddylai'r nodweddion hyn ein hatal rhag bod yn dosturiol a thrugarog, yn enwedig i'r rhai sydd wir angen ein help. Byddai fy mam, a oedd yr hyn y byddwn i'n ei alw'n ddiwinydd synnwyr cyffredin, yn aml yn dweud mai'r penderfyniad neu'r dewis anoddaf i'w wneud yw'r un cywir. O ran ffoaduriaid neu geiswyr lloches, beth sy'n 'anoddach', neu'r opsiwn anoddaf: i ni helpu'r rhai sydd angen ein cymorth, neu droi ein cefnau arnyd nhw.

Dywedir wrthym yn aml fod 'elusen yn dechrau gartref' neu, yn Gymraeg, 'nesaf i bawb ei nesaf'. Wel, mae elusen yn dechrau gartref, ond, fel y gwelwn yn nameg Iesu, nid dyna ble mae'n gorffen o ran caru ein cymydog. Oherwydd ein cymydog yw'r person drws nesaf, yn ogystal â'r person yn y stryd nesaf, a'r person yn y dref nesaf, a hyd yn oed y person yn y wlad nesaf – yn y bôn, y person sydd angen ein help – lle bynnag y bôn. Y Ddau Orchymyn mwyaf yw 'caru Duw a charu ein cymydog'. Gwyddom fod Duw yn caru ein cymdogion – carodd ein cymdogion gymaint nes iddo anfon ei fab, Iesu, i farw drostyn nhw – p'un a ydyn nhw'n gwybod hyn ai peidio! Beth amdanom ni?

Daw un o fy hoff adnodau yn y Beibl o Micha 6:8 ac yn dweud

'Na, mae'r Arglwydd wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisïau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.' (beibl.net)

Rydyn ni'n gwneud hyn i gyd pan rydyn ni'n caru ein cymydog!

**Amen.**

### 3. CÂR DY GYMYDOG FEL TI DY HUN PARCH LORRAINE C. SHORTEN

Rydyn ni i gyd yn gwybod yr ymadrodd: ‘*Câr dy gymydog fel ti dy hun*’. Mae’n ddweud hawdd, ond gadewch i ni fod yn onest mae’n llawer anoddach ei fyw. Oherwydd nid yw ein cymydog bob amser yn wyneb cyfeillgar drws nesaf. Weithiau mae ein cymydog yn ddieithryn. Weithiau ein cymydog yw’r person sy’n troi i fyny yn ein tref gyda dim byd ond sach deithio, yn siarad iaith nad ydyn ni’n ei deall. Ac weithiau ein cymydog yw’r person rydyn ni ond wedi’i weld yn y penawdau wedi’u labelu’n “ceisiwr lloches,” “mudwr,” neu hyd yn oed yn “anghyfreithlon.”

Ers blynyddoedd, mae mewnfudo wedi hawlio’r penawdau yma ym Mhrydain ac Iwerddon. Bob wythnos mae’n ymddangos bod yna ddadl newydd am “gychod bach,” ceiswyr lloches mewn gwestai, neu addewidion gan wleidyddion i “drwsio’r system.” Y tu ôl i’r penawdau hynny, fodd bynnag, mae pobl go iawn. Yn ôl Swyddfa Gartref Prydain, mae degau o filoedd o bobl yn dal i aros am benderfyniadau ar eu ceisiadau am loches. Mae rhai wedi bod yn aros mewn limbo ers blynyddoedd – yn methu gweithio, yn ansicr a fyddant yn cael aros, yn byw mewn tai dros dro a all newid ar fyr rybudd. Ond mae caru ein cymydog yn golygu dod o hyd i ffyrdd o helpu sy’n onest ac yn ddynol.

Mae’r gorchymyn, ‘*Câr dy gymydog fel ti dy hun*’ wedi’i wreiddio mewn dysgeidiaethau Iddewig a Christnogol ond mae’n gofyn am fwy na meddyliau a gweddïau’n unig. Felly, sut olwg sydd ar ‘câr dy gymydog’ felly? Ydyn ni’n gadael i ofn ein llunio ni, neu gariad?

Mae ofn yn dweud:

“Does dim digon o le.”

“Does dim digon o arian.”

“Does dim digon i fynd o gwmpas.”

Ond mae cariad yn dweud:

“Dyma berson.”

“Dyma gymydog.”

“Dyma rywun wedi’i greu ar ddelw Duw.”

Pan ddywedodd Iesu wrthym am garu ein cymydog, wnaeth e ddim ychwanegu:

“*cyhyd â’u bod nhw wedi’u geni ar eich stryd chi.*” Ni ddywedodd: “*cyhyd â’u bod nhw’n edrych fel chi, neu’n swnio fel chi, neu’n pleidleisio fel chi.*” Yn syml, dywedodd ef: “*Carwch nhw.*”

A’r gwir yw, pan fyddwch chi’n cwrdd â phobl wyneb yn wyneb, mae popeth yn newid. Mae “mudwyr” yn peidio â bod yn gategori. Maen nhw’n dod yn enwau ac yn hanesion. Tad a ffodd rhag rhyfel. Mam sy’n gobeithio y bydd ei phlant yn ddiogel. Person ifanc sydd eisiau chwarae pêl-droed. Dyna pryd rydyn ni’n sylweddoli nad bygythiadau yw ein cymydogion, dim ond pobl ydyn nhw sy’n dyheu am yr un pethau rydyn ni’n dyheu amdanynt nhw, diogelwch, urddas a gobaith.



Efallai eich bod wedi clywed neu ddarllen am Grefftredu. Crefftredu yw actiffaeth trwy grefft, megis gwnïo, brodwaith, gwau. Yn lle protestiadau uchel, mae'n brotest dawel, greadigol. Mae Sarah Corbett, sy'n ysgrifennu amdano, yn ei alw'n "brotest addfwyn." Ac rwy'n credu ei fod yn ddarlun hardd o sut olwg all fod ar actiffaeth caru-eich-cymydog. Mae Crefftredu yn ein gwahodd i arafu, i ddefnyddio ein dwylo yn ogystal â'n calonnau, ac i greu rhywbeth sy'n siarad am gyfiawnder, urddas a pherthyn. Gwrthwynebiad a fynegir trwy harddwch ydyw. Gweddi a wneir yn weladwy ydyw.

Dyma lun o goeden a frodiwyd gennyf ac a ddefnyddiwyd fel rhan o brosiect Crefftredu mawr o'r enw 'Stitch A Tree' gan Thread Bearing Witness yn 2017.

Nod y prosiect yw cysylltu cymunedau ac unigolion yn fyd-eang i ddangos cefnogaeth i bobl sydd wedi'u dadleoli ledled y byd. Trefnwyd y coed yn frodwaith mawr yn dwyn yr enw **Fforest** gyda dros 10,000 o goed wedi'u gwnïo gan yr artist Alice Kettle.<sup>v</sup>



Dyma rai awgrymiadau Crefftredu y gallech ystyried eu gwneud, ar eich pen eich hun neu fel grŵp:

- **Gwnïo neu wau** sgwariau gyda geiriau cariad, croeso a gobaith gan ddefnyddio lliwiau, ffabrigau neu ddelweddau sy'n cynrychioli amrywiaeth eich cymuned, gan symboleiddio sut mae pob darn unigryw yn rhan o gyfanrwydd mwy. Yna gellir gwnïo'r rhain at ei gilydd yn faner gymunedol ar gyfer eich eglwys neu gymdogaeth.
- **Ysgrifennu ac addurno cardiau gweddi** dros gyfiawnder hiliol, y gellid eu gosod o amgylch eich eglwys, eu rhoi i gymdogion, neu eu clymu wrth goeden weddi.
- **Peintio neu frodio symbolau undod** e.e. dwylo wedi'u cydblethu, cylchoedd wedi'u plethu, afonydd yn cwrdd, rhywbeth i'ch atgoffa o'n cydgyssylltiad.

Gall y gweithredoedd bychain hyn ymddangos yn syml, ond maen nhw'n dwyn ystyr. Mae gwrthrych wedi'i wneud â llaw yn sôn am ofal, amser a chariad. Mae'n wahoddiad i sgwrs ac yn sbardun i fyfyrion ddyfnach. Mae crefftredu yn ein hatgoffa y caiff cyfiawnder ei ymladd nid yn unig mewn llysoedd a seneddau, ond ei fod hefyd yn cael ei feithrin mewn ceginau, ystafelloedd byw, neuaddau eglwysi a grwpiau cymunedol lle mae calonnau'n cael eu tyneru a straeon newydd yn cael eu hadrodd.

Nid pobl rydyn ni'n eu dewis yw cymdogion. Nhw yw'r bobl sydd wedi eu rhoi i ni. Ac mae sut rydyn ni'n eu trin yn dweud popeth am bwy ydyn ni. Mewn Prydain sy'n teimlo'n rhanedig ac yn amddiffynol, efallai mai'r peth mwyaf radical y gallwn ni ei wneud yw byw fel pe bai "caru eich cymydog" yn golygu'r hyn mae'n ei ddweud mewn gwirionedd.

Un pwyth ar y tro.

Un croeso ar y tro.

Un cymydog ar y tro.

<sup>v</sup> 'Thread Bearing Witness', <https://threadbearingwitness.com/stitch-a-tree-project/> (accessed 17 November 2025).


---

YNA LLEFARODD IESU  
WRTHYNT ETO. ‘MYFI YW  
GOLEUNI’R BYD,’ MEDDAI.  
‘NI BYDD NEB SY’N FY  
NGHANLYN I BYTHYN  
RHODIO YNY TYWYLLWCH,  
OND BYDD GANDDO  
OLEUNI’R BYWYD.’

Ioan 8:12

---

# **RHAN PEDWAR: HOMILIAU A MYFYRDODAU**



## 1. HOMILI AR GYFER SUL CYFIAWNDER HILIOI 2026 PARCH PHILIP T. SUMNER

Mae cynnydd poblyddiaeth mewn rhannau o'n byd dros y blynyddoedd diwethaf wedi peri i'r hyn y cyfeiriodd y Pab Ffrancis ato fel "feirws" hiliaeth ddatblygu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld targedu gwestai ceiswyr lloches gan dyrfaedd blin. Mae'n ymddangos bod rhai o'r protestwyr wedi defnyddio iaith a symbolaeth Cristnogol i gyfiawnhau eu bygythiad. Ar ôl un brotest o'r fath yn Portsmouth, ysgrifennodd esgobion Anglicanaidd a Chatholig Rhufeinig y ddinas honno lythyr pwerus ar y cyd. Nodasant pa mor gywilyddus oeddent yn teimlo am y bygythion a'r creu bwch dihangol o geiswyr lloches a ffoaduriaid. Aethant ymhellach i honni eu bod wedi'u dychryn pan ddefnyddiodd protestwyr iaith Gristnogol i gyfiawnhau eu siantiau rhwygol.

Y broses o wneud grwpiau cyfan yn fwch dihangol, gan eu portreadu fel ffynhonnell cymaint o ddrygioni ein gwlad, sy'n diawleiddio'n annheg y bobl sydd yn aml yn ddiobaith. Y defnydd o iaith Gristnogol honedig sy'n caniatáu i lawer, fel yr offeiriad a'r Lefiad yn stori'r Samariad Trugarog, "fynd heibio ar yr ochr arall". Y broses o chwilio bwch dihangol sy'n galluogi llawer i nacáu, yn eu meddyliau eu hunain, gofyniad yr Efengylau, i garu ein cymydog, neu'r gorchymyn Deuteronomaid i "garu'r dieithryn" (Deut. 10:19). Mae'r cariad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ail-ddynoli'r rhai dan sylw, gwrando ar eu straeon sydd yn aml yn ddiobaith a chael ein cyffwrdd ganddynt. Nid oes unrhyw awgrym, yma, o bolisi 'ffin agored'; mae Addysg Gymdeithasol Gatholig bob amser wedi bod yn glir ar hawl gwladwriaethau i reoli eu ffiniau. Ond, yn sicr, ni ddylem wneud bwch dihangol o geiswyr lloches fel ffynhonnell ein problemau.

Yn wir, mae 'caru ein cymydog' yn gofyn am lawer mwy; nid yw'n ymwneud yn unig â chaniatáu i bobl ddod i mewn i'r wlad hon, ond mae hefyd yn ymwneud â'u galluogi i berthyn unwaith y byddant yma. Atgoffodd y Pab Ffrancis yn 'Fratelli Tutti' ni "nad oes ffurf waeth o ddieithrio na theimlo eich bod wedi'ch dadwreiddio, heb berthyn i neb"<sup>vi</sup>. Dadleua Dina Nayeri, awdur *The Ungrateful Refugee*, fod ar fewnfudwyr a ffoaduriaid "angen urddas i ddod yn rhan hanfodol o gymdeithas ...yr hyn sydd ei angen yn daer arnynt yw bod yn ddefnyddiol. I berthyn i le".<sup>vii</sup>

Yn ôl ym 1989, gofynnwyd i chwaer grefyddol Ddu, Thea Bowman, i siarad yng nghynhadledd esgobion Catholig Rhufeinig yn UDA am hiliaeth yn yr Eglwys. Dechreuodd ei chyflwyniad trwy ganu 'emyn ysbrydol': "Weithiau rwy'n teimlo fel plentyn heb fam... ymhell o gartref!" Er ei bod yn chwaer grefyddol o safle sylweddol, roedd hi'n dweud nad oedd hi wir yn perthyn o hyd. Aeth ymlaen i egluro'n rymus, mewn Eglwys a elwir yn 'Eglwys gyfranogol', mai prin, os o gwbl, y byddai hi'n profi unrhyw *genres* cerddorol neu arddulliau gweddi neu fynegiadau artistig 'Du' mewn addurniadau'r mannau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau.

vi The Holy See, *Fratelli Tutti: Encyclical on Fraternity and Social Friendship* (Orbis, 2020), paragraph 53.

vii Dina Nayeri, *The Ungrateful Refugee: What Immigrants Never Tell You* (Catapult, 2019), p.338.

Yn amlwg, nid oedd anogaeth y Pab Ioan Pawl II ym 1982 wedi'i chlywed: "Nid yw ffydd nad yw'n dod yn ddiwylliant", meddai, "yn cael ei derbyn yn llawn, nag yn destun myfyrdod, nac yn cael ei phrofi'n ffyddlon." Ond nid yw'r 'ymddiwylliannu' hwn yn unig ar gyfer mynd â'r Efengyl i wledydd eraill, ond hefyd ar gyfer galluogi pobl o wahanol ddiwylliannau i berthyn yma.

Un o'r enghreifftiau o Hiliaeth Sefydliadol a roddwyd gan yr Arglwydd Macpherson, a ysgrifennodd ymchwiliad y llywodraeth ar ôl llofruddiaeth y glaslanc Du, Stephen Lawrence ym 1993, oedd grwpiau sefydledig wrth arfer grym. Roedd yn siarad am bobl sy'n dweud pethau fel, "Fel hyn rydyn ni wedi gwneud erioed!" neu "Pan fyddwch yn Rhufain, gwnewch fel y Rhufeiniaid!" Dyma'r math o agwedd sy'n gwrthsefyll ymdrechion i ymddiwylliannu. Awgrymodd awdur "the Ungrateful Refugee", Dina Nayeri, mai'r hyn oedd ei angen oedd "caniatáu i newydd-ddyfodiaid effeithio arnoch chi ar eich tir brodorol, i'ch newid chi"<sup>viii</sup>.

Yn ei hunangofiant a gyhoeddwyd y llynedd, rhybuddiodd y Pab Ffransis rhag disgwyl i bobl gymathu, a chydymffurfio â'r arferion sydd eisoes yn bodoli. Ysgrifennodd: "Mae drysu undod ag unffurfiaeth yn demtasiwn cythreulig. Nid yw undod yn golygu integreiddio gorfodol nac ymyleiddio cydgordiol. Yn hytrach, mae'n amrywiaeth gymodol" (t.46). Galwodd y Pab Ioan Pawl II hyn yn "ysbrydolrwydd cymundeb", lle gwelwn wyneb Duw yn ein gilydd a gwybod sut i "wneud lle" i'n brodyr a'n chwiorydd, gan ddwyn "beichiau ein gilydd".

<sup>viii</sup> Nayeri, *The Ungrateful Refugee*, p.342.

## 2. COST HEDDWCH: (2 CORINTHIAID 5: 11-21)

### DENZIL IEUAN JOHN

Bydd hanes yn cofnodi erchyllterau pob rhyfel, ond pan fydd haneswyr yn nodi'r blynyddoedd cynnar hyn yn y drydedd ddegawd yn yr 21ain ganrif, byddant yn sôn am amgylchiadau pobl Wcráin ar ôl wynebu ymosodiad Rwsia, a phobl Palesteinaidd Llain Gaza yn dioddef bomio Israel. Yn ddiamau, bydd gwleidyddion a haneswyr yn dadansoddi helbul y rhai na gychwynnodd y rhyfeloedd ond sydd wedi dioddef y tu hwnt i'n dealltwriaeth. Eto ni fydd neb yn gallu deall realiti rhyfel oni bai eu bod yn ei brofi drostynt eu hunain. Ar adeg ysgrifennu, mae'r erchyllterau hyn yn parhau, ond rydym i gyd yn gweddïo y bydd y rhyfeloedd yn dod i ben ac y bydd cynllun ar y cyd yn cael ei ddatblygu i ailadeiladu dyfodol y bobloedd hyn.

2025 oedd y flwyddyn i nodi 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, a bydd nifer y rhai a oedd yn rhan o'r Lluoedd Arfog, yn naturiol, yn llai bob blwyddyn. Bu llawer o ryfeloedd eraill, yn enwedig ar gyfandir Affrica. Rhyfeloedd cartref oedd rhain yn bennaf, ond nid yn llai erchyll a thrasig. Mae angen i ddynolryw gofio cost pob rhyfel, nid yn unig o ran cyllid arfau a'r angen i ailadeiladu'r isadeiledd, ond y gost mewn bywydau dynol, wrth ddinistrio cymunedau a'u gwedd cynhenid, yn yr ymddiriedaeth rhwng y naill gymuned a'r llall, a'r berthynas rhwng cenhedloedd a'i gilydd.

Nid dim on gwrthwyneb i ryfel yw heddwch, ond yr ymgysylltiad cadarnhaol â'n cymdogion a'n cyd-ddyn. Felly mae angen i ni ofyn yn 2026, beth bynnag fo digwyddiadau 2025, sut mae'r eglwys yn tyfu heddwch, a phwy sy'n talu pris cymod? Gall ymddangos yn gymharol hawdd i ddiwinyddion gytuno ar gynllun penodol, ond mae galluogi'r rhai sydd wedi dioddef i gyflawni nod mor ogoneddus yn fater arall. Pan ddaw rhyfel i ben, mae adeiladu heddwch yn dasg aruthrol. Mae'n galw ar gyn-elynyddion i estyn ar draws tir neb ac estyn llaw heddwch i'w gilydd.

Gall cyfrifiadur gynllunio adeiladu pontydd go iawn; mae adeiladu 'pontydd ar draws dyfroedd cythryblus' yn galw am adnoddau ysbrydol. O'r groes lle bu gwrthodiad a gwarth, ceisiodd Iesu faddeuant i'r rhai a hoeliodd ei ddwylo a'i draed i'r plin, i'r rhai a watwarodd eiriau chwerw o gasineb, ac a bloeddiodd i ddathlu eu buddugoliaeth wleidyddol. Roedd Iesu'n gallu maddau ond a yw'r natur honno o fewn gafael Cristnogion yn yr Wcráin ac yn Rwsia? Pan mae'r Pab Leo XIV yn apelio am heddwch rhwng Rwsia a'r Wcráin, a oes gan yr Eglwys Uniongred yn y ddwy wlad y nerth ysbrydol i apelio am drugaredd tuag at ei gilydd ac ymbil am faddeuant er mwyn eu dadolwch eu hunain?

Mae cyfiawnder hiliol yn hanfodol yng ngweddïau ac agwedd pob Cristion. Yn yr amser a neilltuwyd ar gyfer Cyfiawnder Hiliol yn ein traddodiadau ein hunain, mae angen i ni geisio nerth a gras Duw i bawb, gan gynnwys ni ein hunain, i ddeall arwyddocâd y groes yn ein hamseroedd cythryblus. Yn ei hanfod, y groes yw'r lle i adael ein poen a'n heuogrwydd wrth i gyn-elynyddion geisio cymorth Duw i deithio tuag at gymod. Heddwch yw canlyniad cyfiawnder a gras ar waith, gan greu cyfle i gyffesu ein pechodau a cheisio maddeuant. Byddai'r Parch Morgan John Rees, diwinydd o Gymro a deithiodd i Ffrainc yn ystod y rhyfel cartref, er mwyn dysgu am ddemocratiaeth newydd, yn aml yn dweud mai 'Heddwch yw plentyn Cyfiawnder'.<sup>ix</sup> Dysgodd fod Senedd Prydain wedi deall yn anghywir ei fod yn fygythiad i awdurdod y brenin, a dihangodd i America, pan oedd eu rhyfel cartref ar y gweill. Roedd yn cydymdeimlo â chymunedau'r Cenhedloedd Cyntaf yn UDA, ac yn ymbil am gyfiawnder.

Arweiniodd y Parch Dr Gustavo Parajon yr eglwys yn Nicaragua yn dilyn y rhyfel cartref yno (1978-1990) ochr yn ochr ag Archesgob Managua wrth iacháu'r genedl. Yn yr un modd, arweiniodd yr Esgob Desmond Tutu arweinwyr eglwysig eraill i ddod â'r holl garfannau amrywiol a oedd yn rhan o frwydrau eu gwlad i geisio cytgorod ymhlith y gwahanol gymunedau Affricanaidd Cynhenid a'r gymuned Wen. Bydd llawer yn cofio arswyd rhyfel cartref yn Rwanda (1990-1994), a'r hil-laddiad a orchmynnodd yr Hutus ar y Tutsis. Ysgrifennodd Dr Rhiannon Lloyd o Ogledd Cymru ei chyfrif o'r ymdrechion i adfer ymddiriedaeth a chytgorod rhwng y gwahanol garfannau, y gellir ei ddarllen yn ei chyfrol 'Liliau'r Tân' y gellir ei brynu yn y rhan fwyaf o siopau llyfrau Cymraeg neu ei ddarllen yn Saesneg ('Fire Lillies')<sup>x</sup> ar ei gwefan **www.healingofthenations**.

Bu aflonyddwch difrifol ym Mhrydain ac Iwerddon sydd wedi canolbwyntio ar y mewnlifiad o ffoaduriaid a groesodd Sianel Lloegr yn ceisio lloches. Mae rhai carfannau o fewn poblogaethau Prydain ac Iwerddon wedi dadlau bod yn rhaid eu dychwelyd o ble y daethant, ond beth fyddai lesu yn ei ddweud wrth y ffoaduriaid sydd wedi cyrraedd Prydain ac Iwerddon yn ogystal â gweddill tir mawr Ewrop? Bydd 2026 yn amser i gymuned yr eglwys ym Mhrydain ac Iwerddon ddeffro ei dealltwriaeth ddiwinyddol o geisio cyfiawnder mewn cymuned anghyfiawn. Ni allwn ond gofyn sut y gallwn adeiladu heddwch mewn byd anghyfiawn. Efallai y gallwn ddeall bod cyfiawnder gwirioneddol wedi'i wreiddio mewn gras ac nid mewn dial, a bod pob casineb yn wrthweithiol i gariad. Heriodd 'goleuni'r byd' bob tywyllwch, a maddau i'r rhai a'i hoeliodd ar groes, gan wrthod ei wahoddiad i'w ddilyn. Dim ond pan fyddwn yn caru ein gilydd fel y mae lesu yn ein caru ni y bydd Cyfiawnder Hiliol yn real.

ix <https://biography.wales/article/s-RHYS-JOH-1760#?c=0&m=0&s=0&cv=15&manifest=https%3A%2F%2Fdam.sssl.lgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F6004378%2Fmanifest.json&xywh=367%2C918%2C1672%2C1443>

x Dr Rhiannon Lloyd, *Fire Lilies: Finding Hope in Unexpected Places* (Healing the Nations Publishing, 2021).

### 3. YNYS O GYMDOGION: AMRYWIAETH, URDDAS A MUDIAD O GARIAD

JUSTIN LAU

Rwy'n caru'r wlad hon a'i phobl. Symudais yma 13 mlynedd yn ôl ar ôl tyfu i fyny yn Japan fel plentyn cenhadol o Singapôr, ac rwyf bellach yn ystyried y DU yn gartref i mi. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi canfod fy hun yn cofleidio'n eiddgar ddiwylliant Prydain fwyfwy. Rwy'n teimlo'r un ymdeimlad o undod â phawb arall pan fyddaf yn ciwio, neu'n cwyno am y tywydd, neu'r ddau ar yr un pryd. Mae hyd yn oed pethau a'm synnodd i ddechrau – y peintiau canol dydd, absenoldeb ambaréls, y pwдинаu gorfelys – bellach wedi dod yn ail natur. Rwy'n cofio cael fy nharo gan sut y byddai pobl yn fy nghyfarch wrth fy enw: 'Helo, *Justin*' neu 'Sut oedd eich wythnos, *Justin*?' Wrth tyfu i fyny prin y defnyddiwn enwau pobl er mwyn osgoi'r risg o ddiffyg parch mewn diwylliannau Dwyrain Asia, ond rwyf bellach wedi dod i werthfawrogi hyn yn fawr am ei fod yn rhoi urddas i'r person rydych chi'n annerch – yn yr un ffordd ag y mae Duw yn adnabod ac yn galw pob un ohonom wrth ein henw.

Fodd bynnag, nid yw fy nhaith integreiddio wedi bod heb gymhlethdodau. Pan symudais i'r DU gyntaf, roeddwn i'n dda iawn am fod yn orllewinol; y nod oedd bod mor Brydeinig â phosibl, ac felly byddwn i'n ffrwyno fy Asiaiddrwydd Dwyreiniol er mwyn peidio â dieithrio neb. Byddai pobl leol yn gwneud sylwadau ar sut nad oeddwn i fel pobl ryngwladol eraill, sy'n golygu nad oeddwn i'n siarad Saesneg gydag 'acen', ac nid oeddwn i'n ymgorffori ffordd diwylliannol idiosyncratig. Cefais groeso cynnes, hyd yn oed fy nerbyn, ond ni themlais erioed fy mod i'n cael fy ngweld, fy nghlywed na fy adnabod yn wirioneddol. Ers hynny, rwyf wedi dod i gydnabod fy statws fel person Lleiafrif Ethnig mewn cyd-destun mwyafrif Gwyn, ac wedi ymgodymu â'i oblygiadau gofidus.

Ar anterth yr hiliaeth gwrth-Asiaidd yn ystod pandemig Covid, dywedodd Duw wrthyf: 'Rwyf ti'n fwy Asiaidd nag wyt ti'n meddwl.' Rhoddodd yr ymadrodd syml hwnnw ganiatâd i mi adennill a chofleidio fy Asiaiddrwydd Dwyreiniol i raddau mwy nag erioed o'r blaen. Mae hyn wedi golygu bod yn eofn ynglŷn â rhai normau diwylliannol sy'n normal i mi hyd yn oed os nad ydyn nhw'n normal i eraill. Mae wedi golygu herio eraill am labelu agweddau ar fy niwylliant yn reddfodol fel rhai 'rhyfedd' neu 'aflan'. Mae wedi golygu gofyn iddyn nhw wneud yr ymdrech i gwrdd â mi yn y canol – i ymgyswddo â fy niwylliant – ac nid dim ond fi'n cwrdd â nhw bob amser. Rwy'n gwerthfawrogi ymddiwylliannu, ond efallai bod angen tynnu llinell pan fydd yn gorffen gyda lleihau neu ddibrisio eich treftadaeth ethnig a diwylliannol.

Bellach, rydw i wedi datblygu diwinyddiaeth amrywiaeth gadarn: lle mae'r Beibl cyfan yn tystio i harddwch ac arwyddocâd amrywiaeth, o'r cychwyn cyntaf yn Genesis 1:27 (pob bod dynol wedi'i greu ar ddelw Duw), hyd at y diwedd yn Datguddiad 7: 9-10 (gweledigaeth broffwydol o bobl Teyrnas Dduw). Bob blwyddyn, caf y fraint o fugeilio myfyrwyr disgyblaeth Gristnogol o bob cwr o'r byd sy'n awyddus i weld ac ymuno â'r hyn y mae Duw yn ei wneud yn y DU. Maen nhw'n dysgu diwylliant ein heglwys, yn ogystal â diwylliant Prydain, ond rydw i hefyd yn pwysleisio bod gan bob un ohonyn nhw ryw beth hanfodol i'w gyfrannu at adeiladu corff Crist. Rydw i'n arbennig o hoff o ddelwedd loteri ryngwladol, ble mae gan bob person unigol ryw beth i'w gyfrannu. Yn y pen draw, rwy'n dyheu am werthoedd Teyrnas pob diwylliant yn yr eglwys fyd-eang i fod o fudd i'r eglwys orllewinol a'i chyfoethogi.

Rwy'n ymwybodol iawn y bydd y DU yn mynd yn fwy amrywiol, gyda niferoedd lleiafrifoedd ethnig eisoes wedi codi i 18.3% yn y DU (Cyfrifiad 2021). Mae hyn yn golygu y bydd ein cymdogion ym Mhrydain yn parhau i fod yn amlethnig ac amlddiwylliannol. Roedd lesu yn gwbl glir mai'r gorchmynion mwyaf yw caru Duw, a charu eich cymydog fel chi'ch hun (Mathew 22.36-40). Ond sut ydym ni'n caru ein cymydog? Sut ydym ni'n trin rhywun fel cymydog yn yr ystyr Feiblaidd, yn ffordd lesu?

Mae gennym ni oll awydd cynhenid i gael ein gweld a'n hadnabod, ein caru a'n gwerthfawrogi am bwy ydym ni mewn gwirionedd – ein hunain gwir a dyls. Dyma sut mae hi i mi. Rydw i eisiau cael fy nhrin ag urddas; rydw i eisiau cael fy nghlywed. Ac mae lesu'n ein galw i drin eraill fel y byddech chi eisiau cael eich trin yn ôl (Mathew 7:12). Mae caru ein cymydog yn dechrau trwy weld pob person rydyn ni'n dod ar ei draws fel un wedi'i greu ar ddelw Duw, a'u trin ag urddas yn lle eu dad-ddyneiddio neu ei diawleiddio. Ac mae'n golygu dysgu, nid yn unig am ein cymydog, ond gan ein cymydog. Dywedodd Bill Nye: 'Mae pawb y byddwch chi byth yn cwrdd â nhw yn gwybod rhywbeth nad ydych chi'n ei wybod.' Mae parch o'r ddwy ochr yn gofyn agwedd o wyleidd-dra a pharodrwydd i ddysgu. Po fwyaf rydyn ni'n dysgu am/gan ein gilydd, y mwyaf rydyn ni'n dysgu am/gan y Duw y mae pob un ohonom wedi'n creu ar ei ddelw.

Rhaid i ni beidio â'i gyfyngu i garu ein cymdogion yng Nghrist yn unig; rydym hefyd wedi ein galw i garu ein cymdogion yn y gymdeithas. Gwelwn y gorchmyn hwn yn nameg lesu am y Samariad Trugarog (Luc 10: 25-37), ble mae'r arall ethnig/crefyddol yn cael ei ganmol am fod y cymydog gwirioneddol gariadus sy'n dilyn ffyrdd lesu. Pwy yw fy nghymydog? M yn y siop sglodion leol sy'n fy ngalw'n frawd. S, y llyfrgellydd, sydd bob amser â fy llyfrau cadw yn barod. U, gweinydd y bwyty Thai, sy'n fy nghroesawu gyda'r wên fwyaf. Pwysleisiodd Koyama Kosuke, diwinydd o Japan, bwysigrwydd 'cymdogrwydd', gan ein hannog mewn byd cynyddol ryngwladol, rhyngddiwylliannol a rhynggrefyddol i 'symud o elyniaeth i groeso [...] o ofn anghyefindra i lawenydd cynefindra' – sydd yn y pen draw yn 'symudiad cariad'.<sup>xi</sup> Yn groes i'r hyn y mae rhai yn ei honni, nid 'ynys o ddieithriad' ydym ni, ond yn hytrach ynys o gymdogion.

Mae fideo YouTube gwych o sut y gwnaeth dau o bobl o Hong Kong cymryd meddiant ar ac adfywio tafarn Brydeinig 200 mlwydd oed (Queens Arms yn Eccles, Manceinion) yn ddiweddar lle maen nhw bellach yn gweini bwydlen arddull izakaya Japaneaid.<sup>xii</sup> Wrth i'r gymuned leol ymgynnull ochr yn ochr am beint neu gyri katsu neu'r ddau, rydyn ni'n gweld cymdogion amlddiwylliannol yn dod at ei gilydd sy'n ceisio lles cyffredin eu dinas (Jeremeia 29:7). Mae'r Brydain rwy'n ei charu ac wedi dod i'w galw'n gartref wedi'i seilio ar werth sylfaenol parch at ei gilydd. Mae'n wlad lle mae pobl yn eich galw'n fwriadol wrth eich enw, gan roi urddas i chi oherwydd eich bod wedi'ch creu ar ddelw Duw. Gadewch i ni fod yn Grist i'n cymdogion; gadewch i ni ddangos iddyn nhw y bydd y bobl maen nhw'n byw drws nesaf iddyn nhw, neu'n gweithio gyda nhw, neu'n ciwio y tu ôl iddyn nhw yn Tesco yn eu trin ag anrhydedd, nid gelyniaeth. Ynghanol cynnen a pholareiddio cynyddol, gadewch i ni geisio pontio rhaniadau gyda mudiad o gariad at ein cymydog.

xi Kosuke Koyama, *Three Mile an Hour God* (SCM Press, 2021), pp.100–101.

xii 'Inside the 200-Year-Old Pub Serving Up Japan's Best Kept Secret', YouTube, <https://www.youtube.com/watch?v=loqw7yKjgl8> (accessed 17 November 2025)

---

YR OEDDENTYN GWEIDDI  
Â LLAIS UCHEL: 'I'N DUW  
NI, SY'N EISTEDD AR YR  
ORSEDD, AC I'R OENY  
PERTHYN Y WAREDIGAETH!

Datguddiad 7:10

---

**RHAN PUMP:  
GWEITHREDWCH –  
GWEITHGAREDDAU AC  
ADNODDAU**



### CÂR DY GYMYDOG

Yn efengyl Mathew, mae Iesu yn dweud wrthym 'Câr dy gymydog fel ti dy hun'. Mae angen i ni fod yn barod i ddilyn esiampl bywyd a dysgeidiaeth Iesu a oedd yn barod i estyn allan at bobl ar draws ymraniadau ethnig ac i gofleidio pob cymuned dan anfantais ac ar yr ymylon. Anogodd Iesu greu cymunedau o gynhwysiant, tegwch a chydraddoldeb i adlewyrchu cariad, gofal a thrugaredd diderfyn Duw tuag at bawb, ac felly mae angen i ni adeiladu'r rheini hefyd.

### GWELD, BARNU A GWEITHREDU

Gan ddefnyddio methodoleg 'Gweld, Barnu a Gweithredu', anogwch bobl i:

**Gweld:** Nodwch beth yr hoffent ei newid yn eu plwyf neu gymuned i wella cydraddoldeb.

**Barnu:** Yng ngoleuni Datguddiad 7: 9-10, beth mae Iesu yn eu galw i'w fynegi o fewn eu hamgylchedd?

Gall cwestiynau i fyfyrion arnynt gynnwys:

- Archwilio ein rhagfarnau a'n safleoedd breintiedig ein hunain trwy hunanfyfyrion, a sut i weithio'n daer i'w datrys.
- Sut allwn ni fyw trwy dosturi a bod yn ymwybodol gynhwysol o bob unigolyn?
- Sut allwn ni gadarnhau gwerth amrywiaeth?
- Sut allwn ni hyrwyddo dealltwriaeth, cynhwysiant, a chyd-barch, a thrwy hynny adeiladu cymunedau ar gyfer pob 'hil', ethnigrwydd a diwylliant?
- Sut allwn ni drawsnewid ein sefydliadau yn gymunedau gweithredu gwrth-hiliol dilyn?
- Sut allwn ni eiriol dros gyfiawnder, mynnu cyfle cyfartal i bawb, a thrwy hynny helpu creu cymuned gariadus i bawb ei rhannu?

**Gweithredu:** Pa gamau gellir eu cymryd i sicrhau'r newid y maent yn ei ragweld?

Darllenwch un o'r pregethau neu'r myfyrdodau a dewiswch themâu neu bynciau a allai fod yn 'Funud i Feddwl'. Gellir rhoi hyn ar hysbysfwrdd yr eglwys dros fis.

### GALWAD I WEITHREDU FEL EGLWYS GYNHWYSOL

Mae gan y gymuned Gristnogol gyfrifoldeb i ddangos gwerthoedd ei ffydd, ac mae ganddi rôl i'w chwarae ar flaen y gad o ran trawsnewid cymdeithas. Gwahoddwch y gynulleidfa neu'r grŵp i drafod pa mor gynhwysol ydyn nhw mewn gwirionedd. A oes amrywiaeth ethnig wirioneddol yn cael ei chynrychioli yn strwythurau'r eglwys? A yw rolau amlwg o fewn yr eglwys ar agor i'r rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol? Sut gall yr eglwys ddangos ymrwymiad clir i gynhwysiant?

Pa gamau penodol, pa mor syml bynnag, all eich plwyf a'ch eglwys eu cymryd i helpu i drawsnewid cymdeithas?

Gall y cwestiynau i fyfrio arnynt gynnwys:

- Sut allwn ni estyn allan y tu hwnt i'n lefel o gysur i gwrdd ag eraill a dysgu amdanynt, clywed eu straeon a bod yn agored i'w dynoliaeth lawn?
- Pa fath o brosiectau allwn ni eu nodi sy'n dod â gwahanol unigolion, ysgolion, eglwysi, grwpiau bach a/neu gymunedau ynghyd i gydweithio ar fater?
- Pa gwestiynau allwn ni ddechrau eu gofyn a sut allwn ni archwilio polisiau ein cymuned leol, genedlaethol a rhyngwladol i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n gwahaniaethu yn erbyn cymunedau ethnig lleiafrifol ac amrywiol nad ydyn nhw wedi mwynhau 'dinasyddiaeth' lawn mewn rhyw fodd?
- Sut allwn ni ddod ag amrywiaeth a pharch at eraill i'n gweddïau, ein dathliadau addoli a'n dyddiau sanctaidd a'n gwyliau?
- Sut allwn ni ddarparu lle diogel a chroesawgar i'r rhai sy'n wynebu gwahaniaethu hiliol?
- Sut allwn ni ddarparu hyfforddiant ac uwchsgilio addas i sicrhau y gall y rhai sy'n credu bod ganddyn nhw alwad i gyflawni amrywiol rolau yn yr eglwys wneud hynny?

**Gweithredu:** Trafodwch a chytunwch ar rywbeth y gallwch ei wneud gyda'ch gilydd. Ysgrifennwch gynllun gyda rolau, cyfrifoldebau ac amserlen. Arddangoswch ef ar hysbysfwrdd, a rhwch ef ar waith.

## **PASBORT PRYDERON**

Gwahoddwch y gynulleidfa i wneud **pasbortau**, gan ddefnyddio darn o bapur A5 neu A4, wedi'i blygu yn ei hanner. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu ble cawsant eu geni, cenedligrwydd ac ethnigrwydd. O dan bob un o'r tri phennawd hyn, gwahoddwch nhw i ysgrifennu pryder sy'n digwydd yn eu pentref, tref, dinas neu wlad neu am gymuned ethnig. Er enghraifft:

**GENI:** Casnewydd **PRYDER:** Tlodi

**CENEDLIGRWYDD:** Prydeinig **PRYDER:** Diweithdra a Hiliaeth

**TARDDIAD ETHNIG:** Cymreig **PRYDER:** Lleisiau pobl ifanc heb gael eu clywed

Unwaith y bydd y pasbortau hyn wedi'u gwneud, mae'r gynulleidfa'n rhydd i'w cadw a'u cymryd adref i weddio neu i'w cyfnewid a gweddïo gyda nhw gartref.

## **CARDIAU DIOLCH**

Mae angen i'r unigolyn blygu darn o bapur A5 neu A4 yn ei hanner ar gyfer y cardiau diolch.

Gwahoddwch y gynulleidfa i wneud/ysgrifennu cardiau diolch i Dduw o ran cyfiawnder hiliol ac amrywiaeth. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am bopeth i fod yn ddiolchgar amdanynt. Ar ôl eu hysgrifennu, gwahoddwch y gynulleidfa i naill ai ddod â'u cardiau i'r blaen i'w rhoi mewn basged, mynd â nhw adref i weddio gyda nhw (efallai eu rhoi yn eu Beibl, ar eu hoergell neu ddesg yn y gwaith) neu eu cyfnewid â rhywun yn eu cynulleidfa i fynd â nhw adref a gweddïo amdanynt.

## ADNODDAU

Isod mae rhestr o adnoddau ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol. Er nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr o bell ffordd, mae'n cynnwys llyfrau, adroddiadau a phhecynnau cymorth gan awduron Cristnogol a fydd yn rhoi i'r rhai gwybodys a'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r pwnc well dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder hiliol, a'u harwyddocâd ar y glannau hyn ac mewn mannau eraill.

## LLYFRAU

- Adedibu, Babatunde. 2012. *Coat of Many Colours: The Origin, Growth, Distinctiveness and Contributions of Black Majority Churches to British Christianity*. Wisdom Summit.
- Aldred, Joe and Keno Ogbo (eds). 2010. *The Black Church in the 21st Century*. Darton, Longman and Todd.
- Aldred, Joe. 2024. *Flourishing in Babylon: Black British Agency and Self Determination*. SCM Press.
- Beckford, Robert. 1998. *Jesus is Dread: Black Theology and Black Culture in Britain*. Darton, Longman and Todd.
- Beckford, R., 2000. *Dread and Pentecostal: A Political Theology for the Black Church in Britain*. SPCK.
- Beckford, Robert. 2023. *Decolonizing Contemporary Gospel Music Through Praxis: Handsworth Revolutions*. (Bloomsbury Studies in Black Religion and Cultures). Bloomsbury Academic.
- Bhogal, Inderjit. 2025. *Hospitality and Sanctuary For All*. CTBI Books.
- Chamberlain, Neville, Eric Forshaw and Malcolm Goldsmith. 1977. *Understanding Inequality: A Handbook for Local Churches*. British Council of Churches.
- Cone, James H. 2025. *God of the Oppressed*. 50<sup>th</sup> Anniversary Edition. Orbis Books.
- Conlan, S. and M. Hobbs. 1984. *New Humanity: A Study Pack for Christians in a Multi-racial Society*. Evangelical Christians for Racial Justice.
- Dixon McKenzie, Dulcie A., Pauline E. Muir and Monique M. Ingalls (eds). 2024. *Black British Gospel Music: From the Windrush Generation to Black Lives Matter*. Routledge.
- Edwards, Joel. 1999. *Lord, Make Us One – But Not All the Same! Seeking Unity in Diversity*. Hodder and Stoughton.
- France-Williams, A. D. A. 2020. *Ghost Ship: Institutional Racism and the Church of England*. SCM Press.
- Gordon-Carter, Glynne. 2003. *An Amazing Journey: The Church of England's Response to Institutional Racism*. Church House Publishing.

- Grant, Paul and Raj Patel (eds). 1990. *A Time to Speak: Perspectives of Black Christians in Britain*. Black Theology Working Group.
- Haslam, David. 1996. *Race for the Millennium: A Challenge to Church and Society*. Church House Publishing.
- Jennings, Willie James. 2020. *After Whiteness: An Education in Belonging* (Theological Education Between the Times). SPCK.
- Judson, Tim. 2025. *The White Bonhoeffer: A Postcolonial Pilgrimage*. SCM.
- Leech, Kenneth. 1988. *Struggle in Babylon: Racism in the Cities and Churches of Britain*. Sheldon Press.
- Lindsay, Ben. 2019. *We Need to Talk About Race: Understanding the Black Experience in White Majority Churches*. SPCK.
- Louis, E.P. 2025. *Black, British and De-Christian: Message to the Mainstream*. SCM.
- Louis, E.P (ed). 2023. *We will Repay: The Biblical Case for Reparations*. CTBI.
- McDonald, Chine. 2022. *God Is Not a White Man: And Other Revelations*. Hodder and Stoughton.
- McKinley, Philip. 2024. *From George Berkeley, to George Floyd, to George Nkencho: The Church of Ireland and Black Theology*. Braemor Studies Series: Number 15. Church of Ireland Publishing.
- Reddie, Anthony G. 2020. *Is God Colour Blind? Insights from Black Theology for Christian Faith and Ministry*. SPCK.
- Reddie, Anthony G. and Carol Troupe (eds). 2023. *Deconstructing Whiteness, Empire and Mission*. SCM Press.
- Reddie, Anthony G. 2025. *Living Black Theology: Decolonizing Knowledge*. Oxford University Press.
- Reddie, Richard. 2022. *Race for Justice: The Struggle for Equality and Inclusion in British and Irish Churches*. Monarch.
- Roach, Jason and Jessamin Birdsall. 2022. *Healing the Divides: How Every Christian Can Advance God's Vision for Racial Unity and Justice*. The Good Book Company.
- Sookhdeo, Patrick (ed). 1974. *All one in Christ: The Biblical View of Race*. Marshall, Morgan and Scott.
- Spencer, Linbert. 2007. *Building a Multi-ethnic Church*. SPCK.
- Sturge, Mark. 2005. *Look What the Lord Has Done! An Exploration of Black Christian Faith in Britain*. Scripture Union Publishing.
- Walton, Heather, R. Ward and M. Johnson. 1985. *A Tree God Planted: Black People in British Methodism*. Ethnic Minorities in Methodism Working Group.

## ADRODDIADAU

- Commission for Urban Priority Areas. 1985. *Faith in the City: A Call for Action by Church and Nation*. Church House Publishing.
- Committee on Black Anglican Concerns. 1991. *Seeds of Hope: Report of a Survey on Combating Racism in the Dioceses of the Church of England*.
- Cymorth Cristnogol. 2020. *Black Lives Matter Everywhere*.
- Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. 2020. *Racial Justice Champions*.
- The Holy See. 2020. *Fratelli Tutti: Encyclical on Fraternity and Social Friendship*. Orbis.
- Faith and Society, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr. 2021. *I Can't Breathe: Baptists Reflecting on Racial Justice in 2020*.
- Eglwys Loegr. 2021. *From Lament to Action*.
- Eglwys yr Alban – Mission Forum. *Migrant and Multicultural Church*.
- Cyngor Eglwys Iwerddon. 2024. *From Every Nation? A Handbook for a Congregation's Journey from Welcome to Belonging*.

## ADNODDAU YCHWANEGOL

- Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) <https://ctbi.org.uk/>
- Mae adnoddau CTBI ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol yn rhoi dealltwriaeth gyflawn o'r dathliad blynyddol hwn.
- Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr: Visions of Colour [www.baptist.org.uk/Groups/379637/Visions\\_of\\_Colour.aspx](http://www.baptist.org.uk/Groups/379637/Visions_of_Colour.aspx)
- Mae adnodd Gweledigaethau o Liw Undeb y Bedyddwyr yn cynnwys deunydd y gellir ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon.
- Evangelical Alliance: 10-step Roadmap to Racial Diversity and Unity <https://www.eauk.org/what-we-do/networks/one-people-commission/10-step-roadmap-to-racial-diversity-and-unity>



